Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Gwarcheidiaeth Arbennig

Cod Ymarfer ar weithredu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol mewn cysylltiad â gorchmynion gwarcheidiaeth arbennig

Drafft ar gyfer ymgynghori
Medi 2017

OGL © Hawlfraint y Goron 2017 WG32790 ISBN Digidol 978-1-78859-504-9

## Cynnwys

1. Rhagarweiniad
2. Asesu addasrwydd ac adroddiadau i'r llys
3. Darparu gwasanaethau cymorth
4. Asesu ar gyfer gwasanaethau cymorth
5. Cymorth ariannol
6. Ar ôl asesu: Hysbysiad o ganlyniad
7. Ar ôl asesu: Hysbysiad o benderfyniad
8. Hysbysiadau
9. Y cynllun gwasanaethau cymorth
10. Adolygu gwasanaethau cymorth
11. Plant sy'n derbyn gofal: gwasanaethau y tu allan i'r ardal
12. Gadael gofal
13. Cwynion a sylwadau

## Rhagarweiniad

1.1. Caiff y cod ymarfer hwn ei gyhoeddi yn unol ag adran 145 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (‘Deddf 2014’), sy’n rhoi grym i Weinidogion Cymru gyhoeddi deddfwriaeth ynglŷn ag arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol. Mae’n rhaid i awdurdodau lleol, wrth arfer eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol mewn cysylltiad â gorchmynion gwarcheidiaeth arbennig, weithredu yn unol â’r gofynion sydd wedi eu cynnwys yn y cod hwn. Nid yw adran 147 o’r Ddeddf (eithrio o ofynion deddfwriaeth) yn berthnasol i unrhyw un o’r gofynion sydd wedi eu cynnwys yn y cod hwn, felly mae’n rhaid dilyn y cod hwn yn ei gyfanrwydd.

1.2. Yn y cod hwn, mae rheidrwydd wedi ei fynegi fel ‘rhaid’ a ‘ni chaiff’. Caiff canllawiau eu mynegi fel ‘gall / gellir’ ac ‘nid oes rhaid’ neu ‘dylai’ ac ‘ni ddylai’.

1.3. Mae’r cod ymarfer hwn yn disodli’r canllawiau statudol ar warcheidiaeth arbennig a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2006.

1.4. Yn ystod 2016-17 aeth Llywodraeth Cymru ati i adolygu gorchmynion gwarcheidiaeth yng Nghymru. Mae’r cod ymarfer hwn yn deillio o’r adolygiad hwnnw. Hoffai Llywodraeth Cymru ddiolch i aelodau’r Grŵp Technegol Gwarcheidiaeth Arbennig a gynorthwyodd Llywodraeth Cymru gyda’r adolygiad hwn.

Y fframwaith cyfreithiol ar gyfer gwarcheidiaeth arbennig

1.5. Gorchymyn llys yw gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig ac mae’n penodi unigolyn neu unigolion yn warcheidwad arbennig plentyn. Mae’n rhoi cyfrifoldeb rhiant sylweddol i’r gwarcheidwad arbennig am bron iawn bob penderfyniad sy’n effeithio ar y plentyn. Mae hefyd yn cyfyngu ar hawliau’r rheini biolegol i ymyrryd neu herio’r gorchymyn heb ganiatâd y llys. Mae gwarcheidiaeth arbennig yn rhoi statws cyfreithiol sy’n cynnig mwy o sicrwydd na maethu hirdymor, ond nid yw’n torri’r cysylltiad cyfreithiol yn llwyr â theulu biolegol y plentyn fel sy’n gysylltiedig â mabwysiadu

1.6. Cyflwynwyd gorchmynion gwarcheidiaeth arbennig yng Nghymru a Lloegr ym mis Rhagfyr 2005 fel dewis parhaol newydd i blant. Ystyriwyd bod gorchymyn cyfreithiol newydd yn angenrheidiol er mwyn diwallu anghenion nifer sylweddol o blant nad oedd modd i’w rhieni eu magu: roedd y plant hyn yn cynnwys plant hŷn oedd wedi eu gwahanu oddi wrth eu teuluoedd biolegol; plant oedd eisoes wedi ymgartrefu gyda pherthynas neu ofalwr maeth; plant o grwpiau lleiafrifol ethnig a oedd yn wynebu anawsterau diwylliannol wrth gael eu mabwysiadu; a phlant ar eu pen eu hunain sy’n

ceisio lloches ac a allai fod angen sail gyfreithiol gadarn heb dorri'r cyswllt cryf sydd ganddyn nhw â'u teulu dramor. Gyda threigl amser bu newid graddol yn y ffordd y caiff gorchmynion gwarcheidiaeth arbennig eu defnyddio. Er enghraifft, bu cynnydd yn nifer y gorchmynion gwarcheidiaeth arbennig sy'n cael eu dyfarnu mewn cysylltiad â phlant ifanc iawn, a chynnydd yn nifer y gorchmynion gwarcheidiaeth arbennig a ddyfarnwyd ar y cyd â gorchymyn goruchwylio. Mae hyn wedi effeithio ar sut mae awdurdodau lleol yn asesu addasrwydd a dichonolrwydd trefniadau gwarcheidiaeth arbennig, gydag awdurdodau lleol yn rhoi mwy o bwyslais ar allu gwarcheidwaid arbennig i ofalu am y plentyn yn fwy hir dymor, ac ar reoli'r perygl posib o niwed.

**Deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth**

1.7. Fe gyflwynwyd gorchmynion gwarcheidiaeth arbennig i Ddeddf Plant 1989 drwy basio Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002. Ychwanegodd adran 115(1) o Ddeddf 2002 yr adrannau newydd 14A-F i Ddeddf Plant 1989. Roedd yr adrannau newydd yn manylu ar y canlynol:

- pwy all ymgeisio am orchymyn gwarcheidiaeth arbennig;
- ym mha amgylchiadau y gellir gwneud gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig;
- natur ac effaith gorchmynion gwarcheidiaeth arbennig;
- amrywio a rhyddhau gorchmynion gwarcheidiaeth arbennig; a
- gwasanaethau cymorth i'r rheini sydd wedi eu heffeithio gan warcheidiaeth arbennig.

1.8. Daeth yr adrannau hyn o Ddeddf Plant 1989 i rym ar 30 Rhagfyr 2005, ac maen nhw'n parhau i fod yn sail gyfreithiol i orchmynion gwarcheidiaeth arbennig yng Nghymru.

1.9. Mae Rheoliadau Gwarcheidiaeth Arbennig (Cymru) 2005 ('y Rheoliadau') yn gwneud y darpariaethau canlynol ynglŷn â gwarcheidiaeth arbennig:

- Y materion y mae'n rhaid i awdurdod lleol ymdrin â nhw mewn adroddiad i'r llys pan fo'r awdurdod (a) yn derbyn hysbysiad o gais unigolyn am orchymyn gwarcheidiaeth arbennig, neu (b) mae llys wedi gofyn i'r awdurdod lleol gynnal archwiliad a llunio adroddiad
- darparu gwasanaethau cymorth gwarcheidiaeth arbennig
- yr amgylchiadau lle mae modd rhoi cymorth ariannol
- yr unigolion sy'n gymwys i gael asesiad o'u hanghenion am wasanaethau cymorth gwarcheidiaeth arbennig, a'r drefn ynglŷn â chael asesiad
- pennu swm y cymorth ariannol
- y gwasanaethau cymorth y maent yn bwriadu eu cynnig yn dilyn asesiad

- cynllun gwasanaethau cymorth gwarcheidiaeth arbennig
- adolygu darpariaeth gwasanaethau cymorth gwarcheidiaeth arbennig.

1.10. Caiff y Rheoliadau eu diwygio o 1 Gorffennaf 2018 gan Reoliadau Gwarcheidiaeth Arbennig (Cymru) (Diwygiad) 2018. Dyma'r prif ddiwygiadau.

- Ychwanegwyd materion ychwanegol at y rhestr o faterion y mae'n rhaid eu hystyried a'u cynnwys yn adroddiad yr awdurdod lleol i'r llys ynglŷn â'r trefniant gwarcheidiaeth arbennig arfaethedig. Mae'r rhain yn rhoi asesiad mwy cynhwysfawr o'r trefniant arfaethedig, gan gynnwys unrhyw beryglon a sut eir i'r afael â'r rhain. Y diben yw ategu'r amcan o sicrhau bod y trefniant yn cefnogi'r plentyn yn effeithiol nes ei fod yn 18 oed.

- Os oedd plentyn yn derbyn gofal yn union cyn dyfarnu gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig, bydd yr awdurdod lleol oedd yn gofalu am y plentyn yn parhau i fod yn gyfrifol am ddiwallu unrhyw anghenion cymorth gwarcheidiaeth arbennig am gyfnod o dair blynedd ar ôl gwneud y gorchymyn, ni waeth ble mae'r plentyn hwnnw yn byw. Bydd rhaid i'r awdurdod hefyd hysbysu'r awdurdod lle mae'r plentyn yn byw ynglŷn ag unrhyw anghenion cymorth sy'n parhau wrth i'r cyfnod hwnnw ddod i ben.

Mae'r cod ymarfer hwn hefyd yn gosod gofyniad newydd ar awdurdodau lleol i wneud carfanau penodol o bobl yn ymwybodol o'u hawl i ofyn am asesiad o'u hanghenion am wasanaethau cymorth gwarcheidiaeth arbennig. Mae'r rhain yn cynnwys gwarcheidwaid arbennig, darpar warcheidwaid arbennig, plant sy'n destun trefniadau gwarcheidiaeth arbennig, a phlant gwarcheidwaid arbennig.

**Trosolwg o drefniadau gwarcheidiaeth arbennig**

1.11. Mae'n bosibl i lys teulu wneud gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig parthed plentyn os yw'n derbyn cais gan unigolyn neu unigolion a ddisgrifir yn y carfanau a amlinellir yn adran 14F o Ddeddf Plant 1989 (gweler pennod 1 y cod hwn).

1.12. Gall y llys hefyd wneud gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig mewn unrhyw achos teuluol ynglŷn â lles y plentyn os yw o'r farn y dylid gwneud gorchymyn o'r fath. Mae hyn yn berthnasol hyd yn oed os nad oes cais wedi ei wneud, ac mae'n cynnwys achosion mabwysiadu.

1.13. Rhaid i unrhyw unigolyn sy'n dymuno gwneud cais am orchymyn gwarcheidiaeth arbennig roi tri mis o rybudd ysgrifenedig i'r awdurdod lleol ynghylch eu bwriad i ymgeisio. Yr unig eithriad i hyn yw os oes gan yr

unigolyn yr hawl gan y llys i wneud cais cystadleuol am orchymyn gwarcheidiaeth arbennig os oes cais am orchymyn mabwysiadu eisoes wedi ei wneud. Mae hyn er mwyn rhwystro'r cais cystadleuol rhag creu oedi gyda'r gwrandawiad ynghylch y gorchymyn mabwysiadu.

1.14. Pan gaiff cais ei dderbyn, neu os yw'r llys yn gofyn, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol archwilio a pharatoi adroddiad i'r llys ynglŷn ag addasrwydd yr ymgeiswyr i fod yn warcheidwaid arbennig. Mae'r wybodaeth y dylid ei chynnwys yn yr adroddiad llys i'w gweld yn rhestr y Rheoliadau. Nid oes rhaid i'r llys wneud gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig oni bai ei fod wedi derbyn yr adroddiad sy'n rhoi sylw i addasrwydd yr ymgeiswyr.

### Gofal, cyswllt a chartref / gorchmynion trefniadau plant

1.15. Pan ddaw plentyn sy'n destun gorchymyn gofal neu orchymyn gofal dros dro yn destun gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig, caiff y gorchymyn gofal ei ddiddymu. Os gwneir gorchymyn gofal mewn cysylltiad â phlentyn sydd eisoes yn destun gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig, bydd y ddau orchymyn yn parhau mewn grym.

1.16. Cyn gwneud gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig, mae'n rhaid i'r llys ystyried a ddylid amrywio neu ryddhau unrhyw orchymyn arall sy'n bodoli a wnaed o dan adran 8 o Ddeddf Plant 1989. Fe allai hyn gynnwys gorchymyn cyswllt neu orchymyn preswyl a threfniadau plentyn. Dylai'r llys ystyried hefyd a ddylid gwneud gorchymyn llys ar yr un pryd â'r gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig. Gellir gwneud gorchmynion cyswllt, er enghraifft, i fynnu bod cyswllt yn dal i fodoli gyda rhieni'r plentyn.

1.17. Wrth wneud y gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig, gall y llys hefyd roi caniatâd i'r plentyn gael ei adnabod wrth gyfenw newydd, a rhoi caniatâd i fynd â'r plentyn o'r DU am gyfnodau hirach na thri mis.

### Cyfrifoldeb rhiant

1.18. Bydd gan y gwarcheidwad arbennig gyfrifoldeb rhiant am y plentyn. Yn ddibynnol ar unrhyw orchymyn diweddarach mewn cysylltiad â'r plentyn yn unol â Deddf Plant 1989, gall y gwarcheidwad arbennig arfer cyfrifoldeb rhiant ar draul eraill sydd â chyfrifoldeb rhiant, ac eithrio gwarcheidwad arbennig arall sydd wedi ei enwi. Ceir eithriad mewn amgylchiadau lle mae'r gyfraith yn datgan bod angen cydsyniad mwy nag un unigolyn gyda chyfrifoldeb rhiant (er enghraifft, diffrwytho plentyn). Y diben yw y bydd gan y gwarcheidwad arbennig gyfrifoldeb clir o ran yr holl benderfyniadau beunyddiol yn ymwneud â gofalu am y plentyn neu'r unigolyn ifanc a'u magwraeth. Yn wahanol i fabwysiadu, mae'r gorchymyn yn cadw'r cyswllt cyfreithiol sylfaenol gyda'r rhieni. Nhw yw rhieni cyfreithiol y plentyn yn dal

i fod, ond cyfyngir ar eu gallu i arfer eu cyfrifoldebau fel rhieni. Maen nhw'n cadw'r hawl i ganiatáu neu wrthod caniatáu i fabwysiadu'r plentyn neu ei roi i'w fabwysiadu. Mae'n rhaid i'r gwarcheidwad arbennig hefyd wneud ymdrech resymol i hysbysu'r rhieni os yw'r plentyn yn marw.

1.19. Er bod gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig mewn grym, rhaid i bawb sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn gydsynio cyn bod modd newid cyfenw plentyn neu fynd â'r plentyn o'r DU am fwy na thri mis neu mae'n rhaid i'r llys ganiatáu hynny.

**Amrywio neu ryddhau gorchmynion gwarcheidiaeth arbennig**

1.20. Yn wahanol i orchmynion mabwysiadu, mae modd amrywio neu ryddhau gorchmynion gwarcheidiaeth arbennig naill ai ar gais:

- y gwarcheidwad arbennig
- yr awdurdod lleol yr oedd gorchymyn gofal mewn grym yn ei enw mewn cysylltiad â'r plentyn cyn gwneud y gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig
- unrhyw un â gorchymyn preswyl / trefniant plentyn mewn cysylltiad â'r plentyn cyn y gwnaed y gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig.

1.21. Gyda chaniatâd y llys, mae modd amrywio neu ryddhau'r gorchymyn ar gais:

- rhieni neu warcheidwaid y plentyn
- unrhyw lys-riant sydd â chyfrifoldeb rhiant
- unrhyw un â chyfrifoldeb rhiant yn union cyn gwneud y gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig
- y plentyn (os yw'r llys yn fodlon bod gan y plentyn ddealltwriaeth ddigonol).

1.22. Pan nad yw'r cais yn cael ei wneud gan y plentyn, a bod angen caniatâd y llys, gall y llys roi caniatâd dim ond os yw amgylchiadau wedi newid yn sylweddol ers gwneud y gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig.

1.23. Gall y llys, yn ystod unrhyw achos teuluol lle mae cwestiwn yn codi ynghylch lles plentyn sy'n destun gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig, amrywio neu ryddhau'r gorchymyn yn niffyg cais.

1.24. Ni fyddai cais am orchymyn gwarcheidiaeth arbennig yn tanseilio achosion penodedig sydd â'r diben o gynrychioli'r plentyn yn unol ag adran 41 o Ddeddf Plant 1989, ond fe all y llys ofyn am baratoi adroddiad lles yn unol ag adran 7.

**Gwasanaethau cymorth**

1.25. Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol drefnu i ddarparu gwasanaethau cymorth gwarcheidiaeth arbennig. Mae'r rhain yn cynnwys cwnsela, cynghori, gwybodaeth a gwasanaethau cyffelyb eraill (gan gynnwys cymorth ariannol) fel y nodir yn y Rheoliadau (gweler pennod 2 y cod hwn). Mae'r Rheoliadau hefyd yn darparu ar gyfer asesu anghenion derbyn gwasanaethau cymorth gwarcheidiaeth arbennig, a'r elfen o gynllunio ac adolygu'r gwasanaethau cymorth hynny.

**Hawliau plant**

1.26. Wrth ystyried a ddylid gwneud gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig, lles y plentyn yw prif ystyriaeth y llys ac mae'r rhestr wirio yn adran 1(3) o Ddeddf Plant 1989 yn berthnasol.

1.27. Wrth arfer eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol mewn cysylltiad â gwarcheidiaeth arbennig, rhaid i awdurdodau ystyried eu dyletswyddau cyffredinol a rhoi sylw dyledus i Ran 1 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Rhaid iddyn nhw hefyd hyrwyddo lles plant a gwarcheidwaid arbennig yn unol â'r fframwaith canlyniadau llesiant cenedlaethol a gyhoeddwyd yn 2016. (Mae llesiant yn y cyd-destun hwn yn cynnwys 'lles' yn ôl dehongliad y gair hwnnw yn Neddf Plant 1989.)

1.28. Mae'r tabl sy'n dilyn yn disgrifio'r canlyniadau y dylid eu sicrhau ar gyfer plant sy'n destun gorchmynion gwarcheidiaeth arbennig. Mae'r canlyniadau hyn yn seiliedig ar hawliau ac yn gysylltiedig ag erthyglau perthnasol o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Maen nhw hefyd yn gysylltiedig â'r canlyniadau llesiant cenedlaethol a ddiffinnir yn adran 2 o Ddeddf 2014 ac sy'n ffurfio sylfaen y fframwaith canlyniadau cenedlaethol. Mae'r tabl hefyd yn dangos y 'rhestr wirio' lles sydd wedi ei gynnwys yn Neddf Plant 1989 - y materion y mae'n rhaid i'r llys teulu eu hystyried wrth benderfynu a ddylid gwneud gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig neu unrhyw orchymyn arall mewn cysylltiad â phlentyn.

1.29. **Wrth weithredu'r cod ymarfer hwn, rhaid i awdurdodau lleol sicrhau eu bod yn ymdrechu i gyflawni'r canlyniadau hyn ac i fesur llwyddiant eu polisïau a'u gweithdrefnau gwarcheidiaeth arbennig mewn cysylltiad â nhw.**

| **Y canlyniadau sy'n seiliedig ar hawliau**<br>*Yr Erthygl Berthnasol o Gonfensiwn* | **Canlyniadau lles cenedlaethol**<br>*'Beth yw ystyr lles' Diffiniadau o* | **Lles y plentyn**<br>*Adran 1 o Ddeddf Plant 1989, gan gynnwys materion y bydd* |
|---|---|---|

| *y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn* | *Adran 2 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014* | *llys yn eu hystyried yn benodol* |
|---|---|---|
| Gwneir cais am Orchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig a'u gwneud yn seiliedig ar yr hyn sydd orau i'r plentyn neu'r unigolyn ifanc. Yr hyn sydd orau i'r plentyn yw'r brif ystyriaeth wrth asesu. **Erthygl 18** | Caiff fy amgylchiadau unigol i eu hystyried.<br>*Sicrhau hawliau a hawlogaethau* | Pan fo llys yn ystyried unrhyw gwestiwn mewn cysylltiad â magwraeth plentyn … lles y plentyn fydd ystyriaeth bennaf y llys.<br>***Adran 1(1)*** |
| Mae gwarcheidwaid arbennig (a rhieni biolegol) yn deall yn llawn sut mae'r GGA yn hyrwyddo ac yn cyfrannu at fagwraeth a lles y plentyn, ac yn deall eu swyddogaeth a'u cyfrifoldebau o ran hyrwyddo'r hyn sydd orau i'r plentyn.<br>***Erthygl 18*** | Rwy'n cael y gefnogaeth sydd ei hangen arnaf i dyfu a bod yn annibynnol.<br>*Lles cymdeithasol ac economaidd*<br><br>Rwy'n byw mewn cartref sy'n fy nghefnogi orau i sicrhau fy lles.<br>*Addasrwydd llety* | |
| Mae'r plentyn neu'r unigolyn ifanc yn cael cefnogaeth ei Warcheidwad Arbennig i gadw cysylltiadau teuluol, gan gynnwys cynnal perthynas bersonol a chyswllt uniongyrchol gyda'u rhieni biolegol (yn ddibynnol ar unrhyw gyfyngiadau llys.)<br>***Erthyglau 8 a 9*** | Rwy'n perthyn.<br><br>Rwy'n cyfrannu at ac yn mwynhau perthnasau diogel ac iach.<br>*Perthnasau cartref, teuluol a phersonol* | |
| Mae'r Gwarcheidwaid Arbennig yn cael cefnogaeth i hyrwyddo a goruchwylio'r cyswllt rhwng y plentyn a'u rhieni biolegol mewn modd diogel, gan gynnwys cefnogaeth i reoli perthnasau a gwrthdaro posib.<br>***Erthyglau 8 a 9*** | Rwy'n perthyn.<br><br>Rwy'n cyfrannu at ac yn mwynhau perthnasau diogel ac iach.<br>*Perthnasau cartref, teuluol a phersonol* | |
| Cyn belled â phosibl, mae'r trefniant Gwarcheidiaeth Arbennig yn rhoi elfen o gysondeb i'r plentyn neu'r unigolyn ifanc yn ei fagwraeth yn unol â'i gefndir ethnig, diwylliannol ac ieithyddol.<br>***Erthygl 20*** | Caiff fy amgylchiadau unigol eu hystyried.<br>*Sicrhau hawliau a hawlogaethau* | Bydd y llys yn rhoi ystyriaeth arbennig i sut y bydd unrhyw newid yn amgylchiadau'r plentyn yn debygol o effeithio arno<br>***Adran 1(3)(c)***<br><br>Bydd y llys yn rhoi ystyriaeth arbennig i oedran, rhyw a chefndir y plentyn ac i unrhyw nodwedd sydd ganddo y mae'r llys yn ystyried eu bod yn briodol. |

| | | |
|---|---|---|
| | | ***Adran 1(3)(d)*** |
| Mae plentyn neu berson ifanc y gwneir GGA yn ei enw er mwyn yr hyn sydd orau iddo yn derbyn gofal cyson nes ei fod yn 18 oed.<br>***Erthygl 20*** | Rwy'n perthyn.<br>*Perthnasau unigolynnol, teuluol ac yn y cartref*<br><br>Rwy'n cael y gefnogaeth sydd ei hangen arnaf i dyfu a bod yn annibynnol.<br>*Lles cymdeithasol ac economaidd* | |
| Mae'r plentyn neu'r unigolyn ifanc yn gallu mynegi ei farn yn ddi-rwystr ym mhob cam, gan gynnwys yn ystod asesiadau'r awdurdodau lleol a'r broses lys, ac fe gaiff gefnogaeth i fynegi ei farn.<br>***Erthygl 12*** | Caiff fy llais ei glywed a gwrandewir arno.<br><br>Rwy'n siarad drosof fy hun ac yn cyfrannu at y penderfyniadau sy'n effeithio ar fy mywyd neu mae gennyf rywun a all wneud hynny drosof.<br>*Sicrhau hawliau a hawlogaethau* | Yr hyn y mae modd ei ganfod am ddymuniadau a theimladau'r plentyn (fe'u hystyrir yng ngoleuni ei oedran a'i ddealltwriaeth)<br>***Adran 1(3)(a)*** |
| Rhoddir ystyriaeth briodol i farn y plentyn neu'r unigolyn ifanc wrth wneud penderfyniadau.<br>**Erthygl 12** | Caiff fy llais ei glywed a gwrandewir arno<br>*Sicrhau hawliau a hawlogaethau* | Yr hyn mae modd ei ganfod am ddymuniadau a theimladau'r plentyn (fe'u hystyrir yng ngoleuni ei oed a'i ddealltwriaeth)<br>***Adran 1(3)(a)*** |
| Mae'r plentyn neu'r unigolyn ifanc yn derbyn gwybodaeth briodol am y trefniant Gwarcheidiaeth Arbennig arfaethedig, a hynny mewn modd sy'n addas i'w oedran a lefel ei ddealltwriaeth, gan gynnwys:<br>- y rheswm pam na all barhau i fyw gyda'i rieni<br>- natur hirdymor y trefniant (hyd at 18 oed)<br>- goblygiadau ymarferol trefniant o'r fath (e.e. ar gyfrifoldeb rhieni) | Rwy'n gwybod ac yn deall pa ofal, cymorth a chyfleoedd sydd ar gael ac yn eu defnyddio er mwyn fy helpu i sicrhau fy lles.<br><br>Gallaf gael gafael ar yr wybodaeth gywir, pan fydd ei hangen arnaf, yn y ffordd yr wyf yn dymuno ei chael a defnyddio'r wybodaeth hon i reoli a gwella fy lles.<br>*Sicrhau hawliau a hawlogaethau* | |

| | | |
|---|---|---|
| - trefniadau cyswllt gyda'r rhieni biolegol a sut y caiff hyn ei hwyluso<br>- y gefnogaeth fydd ar gael.<br>**Erthygl 13** | | |
| Mae Gwarcheidwaid Arbennig yn cael y gefnogaeth, y cyfleusterau a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnyn nhw i ofalu am y plentyn neu'r unigolyn ifanc.<br>***Erthygl 18*** | Rwy'n cael y gofal a'r cymorth cywir, cyn gynted â phosibl.<br>*Lles corfforol, iechyd meddwl ac emosiynol*<br><br>Rwy'n gwybod ac yn deall pa ofal, cymorth a chyfleoedd sydd ar gael ac yn eu defnyddio er mwyn fy helpu i sicrhau fy lles.<br>*Sicrhau hawliau a hawlogaethau* | |
| Bydd plant a phobl ifanc sydd wedi dioddef camdriniaeth neu esgeulustod ynghyd â'u Gwarcheidwaid Arbennig yn cael y gefnogaeth sydd ei hangen arnyn nhw, a chaiff mesurau priodol eu gweithredu i reoli peryglon ac i sicrhau y caiff y plentyn ei fagu mewn amgylchedd sicr a diogel.<br>**Erthygl 19** | Rwy'n ddiogel ac rwy'n cael fy amddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod.<br><br>Rwyf i [y Gwarcheidwad Arbennig] yn cael cymorth i amddiffyn y bobl sy'n bwysig i mi rhag camdriniaeth ac esgeulustod<br><br>Rwy'n cael gwybod sut i leisio fy mhryderon.<br>*Amddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod* | Bydd y llys yn rhoi ystyriaeth arbennig i unrhyw niwed y mae'r plentyn wedi ei ddioddef neu mewn perygl o'i ddioddef.<br>***Adran 1(3)(e)*** |
| Bydd plant sydd wedi dioddef esgeulustod, camdriniaeth neu sydd wedi eu hecsploetio mewn unrhyw fodd yn cael cefnogaeth briodol i hyrwyddo'u hadferiad corfforol a seicolegol. At hyn, bydd trefniant y GGA yn darparu amgylchedd i'r plentyn fydd yn meithrin ei iechyd, hunan-barch ac urddas.<br>***Erthygl 39*** | Rwy'n cael y gofal a'r cymorth cywir, cyn gynted â phosibl.<br>*Lles corfforol, iechyd meddwl ac emosiynol* | Bydd y llys yn rhoi ystyriaeth arbennig i anghenion corfforol, emosiynol ac addysgol y plentyn<br>***Adran 1(3)(b)***<br><br>Bydd y llys yn rhoi ystyriaeth arbennig i unrhyw niwed y mae'r plentyn wedi ei ddioddef neu mewn perygl o'i ddioddef.<br>***Adran 1(3)(e)*** |
| Mae Gwarcheidwaid Arbennig yn derbyn cymorth ariannol priodol, gan gynnwys lwfansau a chymorth i hawlio unrhyw fudd-daliadau lles mae ganddynt yr hawl iddynt fel modd o gefnogi magwraeth a | Nid wyf yn byw mewn tlodi.<br>*Lles cymdeithasol ac economaidd* | |

| | | |
|---|---|---|
| datblygiad y plentyn.<br>***Erthyglau 26 a 27*** | | |
| Caiff trefniadau GGA, gan gynnwys cefnogaeth i'r plentyn a'r Gwarcheidwad Arbennig, eu hadolygu'n achlysurol, yn enwedig os oedd y plentyn neu'r unigolyn ifanc yn derbyn gofal (neu y byddai wedi derbyn gofal pe na fyddai'r GGA wedi ei wneud).<br>***Erthygl 25*** | Caiff fy amgylchiadau unigol eu hystyried.<br>*Sicrhau hawliau a hawlogaethau* | |

## 2. Asesu addasrwydd ac adroddiadau i'r llys

2.1. Mae'n ddyletswydd ar awdurdod lleol i ymchwilio i addasrwydd yr unigolyn i fod yn Warcheidwad Arbennig, ac i baratoi adroddiad i'r llys teuluol os yw'n cael ei hysbysu o gais neu os yw'r llys yn gofyn amdano. Mae'r bennod hon yn egluro cyfrifoldebau'r awdurdod lleol mewn cysylltiad ag asesiadau addasrwydd a beth ddylid ei gynnwys yn yr adroddiad.

<u>Ceisiadau am orchmynion gwarcheidiaeth arbennig</u>

2.2. Gellir gwneud cais am orchymyn gwarcheidiaeth gan unigolyn neu ar y cyd gan ddau unigolyn neu fwy. Nid oes rhaid i gydymgeiswyr fod yn briod neu mewn partneriaeth sifil gyda'i gilydd. Mae'n rhaid i warcheidwaid arbennig fod yn 18 oed neu'n hŷn. Nid oes modd i rieni neu lys-riant plentyn fod yn warcheidwaid arbennig y plentyn hwnnw.

2.3. Mae'n bosibl i lys wneud gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig parthed plentyn os yw'n derbyn cais gan:

- unrhyw un sy'n warcheidwad i'r plentyn
- gofalwr maeth awdurdod lleol y bu'r plentyn yn byw gydag ef/hi am flwyddyn yn union cyn y cais
- unrhyw un a enwir mewn gorchymyn preswyl neu orchymyn trefniadau plentyn fel unigolyn y mae'r plentyn yn mynd i fyw gyda nhw, neu sydd â chydsyniad pawb y mae gorchymyn preswyl neu orchymyn trefniadau plentyn o'r fath yn gweithredu o'u plaid
- unrhyw un y mae'r plentyn wedi byw gydag ef/hi am dair o'r pum mlynedd diwethaf
- os yw'r plentyn yng ngofal awdurdod lleol, unrhyw un gyda chydsyniad yr awdurdod lleol
- unrhyw un sydd â chydsyniad pawb sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn
- unrhyw unigolyn sydd â hawl gan y llys i ymgeisio.

2.4. Rhaid i unrhyw unigolyn sy'n dymuno gwneud cais am orchymyn gwarcheidiaeth arbennig roi tri mis o rybudd ysgrifenedig i'r awdurdod lleol ynghylch eu bwriad i wneud cais. Yr unig eithriad i hyn yw os oes gan yr unigolyn ganiatâd y llys i wneud cais cystadleuol am orchymyn gwarcheidiaeth arbennig os oes cais am orchymyn mabwysiadu wedi ei wneud eisoes. Mae hyn er mwyn rhwystro'r cais cystadleuol rhag creu oedi gyda'r gwrandawiad ynghylch y gorchymyn mabwysiadu.

2.5. Os yw'r plentyn yn derbyn gofal gan awdurdod lleol, rhaid i'r ymgeisydd roi'r hysbysiad ysgrifenedig i'r awdurdod lleol sy'n gofalu am y plentyn (h.y. rhiant corfforaethol y plentyn). Os nad yw plentyn yn derbyn gofal gan

awdurdod lleol, rhaid i'r ymgeisydd roi hysbysiad ysgrifenedig i'r awdurdod lleol y mae'r ymgeisydd fel arfer yn byw ynddo.

2.6. Gall y llys hefyd wneud gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig mewn unrhyw achos teuluol sy'n ymwneud â lles y plentyn os yw o'r farn y dylid gwneud gorchymyn. Mae hyn yn berthnasol hyd yn oed os nad oes cais wedi ei wneud, ac mae'n cynnwys achosion mabwysiadu.

<u>Asesu addasrwydd</u>

2.7. Pan fydd cais yn dod i law, neu os yw'r llys yn gofyn, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol ymchwilio a pharatoi adroddiad i'r llys ynglŷn ag addasrwydd yr ymgeiswyr i fod yn warcheidwaid arbennig.

2.8. Os nad oes cais, gall y llys benderfynu y dylid gwneud gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig, a chyfarwyddo'r awdurdod lleol perthnasol i baratoi adroddiad ynglŷn ag addasrwydd unigolyn i fod yn warcheidwad arbennig o fewn cyfnod amser penodol.

2.9. Mae angen yr un wybodaeth ar gyfer adroddiad yr awdurdod lleol pa un a oes cais neu a yw'r llys wedi gofyn i'r awdurdod lleol baratoi adroddiad. Ni all y llys wneud gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig oni bai ei fod wedi cael yr adroddiad sy'n rhoi sylw i addasrwydd yr ymgeiswyr.

2.10. Yr awdurdod y gwneir y cais iddo sy'n gyfrifol am baratoi'r adroddiad - h.y. yn achos plentyn sy'n derbyn gofal, yr awdurdod sy'n gofalu am y plentyn fydd yn gwneud hyn (rhiant corfforaethol y plentyn); ac mewn unrhyw achos arall, yr awdurdod lleol y mae'r ymgeisydd fel arfer yn byw ynddo (ni waeth ymhle mae'r plentyn yn byw ar y pryd).

2.11. Fel rhan o'i ymchwil ac wrth baratoi'r adroddiad, mae'n bosibl y bydd angen i'r awdurdod lleol cyfrifol ofyn am wybodaeth gan awdurdod arall – er enghraifft, os yw awdurdod lleol yn paratoi cais mewn cysylltiad â phlentyn y mae'n gofalu amdano a bod y darpar warcheidwad arbennig yn byw yn ardal awdurdod lleol arall. Rhaid i awdurdodau lleol gydweithio'n llwyr, lle bo angen, wrth ymchwilio a pharatoi'r adroddiad ar gyfer y llys. Bydd angen hefyd o bosibl i'r awdurdod lleol gysylltu â'r gwasanaethau iechyd lleol er mwyn paratoi adroddiad cynhwysfawr.

2.12. Pan fydd awdurdod lleol yn cael hysbysiad gan ymgeisydd neu gais gan y llys, rhaid iddo anfon gwybodaeth ysgrifenedig at y darpar warcheidwad arbennig ac at rieni'r plentyn, yn egluro'r hyn y mae'n bwriadu ei wneud wrth baratoi'r adroddiad.

2.13. Ym mhob achos, rhaid i’r awdurdod lleol drefnu i ganfod a chyfleu dymuniadau a theimladau’r plentyn yn fanwl gywir ynghylch y trefniant gwarcheidiaeth arbennig arfaethedig. Bydd hyn yn arbennig o bwysig mewn achosion lle nad yw’r llys wedi penodi gwarcheidwad plentyn.

2.14. Yn unol ag adran 14A(1) o Ddeddf Plant 1989, mae modd i awdurdodau lleol wneud trefniadau o’r fath i benodi unrhyw berson i weithredu ar eu rhan i gynnal archwiliad neu baratoi adroddiad ar gyfer y llys fel y gwelant orau. Mae’n rhaid i awdurdodau lleol ystyried sut orau i roi’r grym hwn ar waith er mwyn hwyluso’r archwiliad a pharatoi’r adroddiad mewn pryd ar gyfer y llys.

2.15. Gall yr awdurdod lleol drefnu i rywun arall wneud yr archwiliad neu baratoi’r adroddiad ar ei ran. Mae’n rhaid i awdurdodau lleol sicrhau bod gan yr unigolyn sy’n cynnal yr archwiliad ac sy’n paratoi’r adroddiad y cymwysterau a'r profiad priodol, neu ei fod yn cael ei oruchwylio gan rywun sy’n meddu ar y rheini.

2.16. Rhaid i’r asesiad addasrwydd fod yn gadarn, yn wrthrychol ac yn ymholgar. Rhaid dadansoddi a gwerthuso’r wybodaeth a ddaw i law gan ac ynglŷn â’r darpar warcheidwad arbennig yn ofalus, a rhaid gwirio pa mor gyson a manwl gywir ydyw. Rhaid rhoi’r brif ystyriaeth i les y plentyn, ac mae’n hanfodol y caiff cefndir darpar warcheidwaid arbennig ei wirio’n drwyadl. Oherwydd bod gorchmynion gwarcheidiaeth arbennig yn ddewis parhaol, ac y disgwylir iddynt barhau yn weithredol nes fo’r plentyn yn 18 oed, mae’n hanfodol bod yr asesiad yn ystyried gallu’r darpar warcheidwad arbennig i ddiwallu anghenion y plentyn ar adeg llunio’r gorchymyn ac yn y dyfodol (gyda phecyn cymorth priodol, fel bo angen).

2.17. Rhaid i’r adroddiad i’r llys gynnwys hefyd ganlyniadau unrhyw asesiad am wasanaethau cymorth gwarcheidiaeth arbennig.

2.18. Nid yw trefniadau gwarcheidiaeth arbennig yn darparu ar gyfer cyfnod ymgartrefu, fel sy’n digwydd gydag achosion mabwysiadu. Mae hyn yn adlewyrchu’r disgwyliad bod gan y plentyn a’r gwarcheidwad arbennig berthynas sefydlog yn barod a’u bod yn adnabod ei gilydd yn dda. Fodd bynnag, mae’r newid yn y ffordd y caiff gorchmynion gwarcheidiaeth eu defnyddio, yn enwedig yn achos plant iau neu pan fyddai plant wedi cael eu rhoi mewn gofal fel arall, yn golygu nad yw hynny’n wir ym mhob achos. Mae’n rhaid i awdurdod lleol felly roi ystyriaeth ofalus i natur y berthynas sydd eisoes yn bodoli rhwng y plentyn a’r darpar warcheidwad arbennig a’r gefnogaeth y gellid fod ei hangen er mwyn helpu i gryfhau a meithrin y berthynas. Os nad yw’r plentyn yn byw gyda’r darpar warcheidwad arbennig, rhaid i’r awdurdod lleol ystyried sut orau y gall

gefnogi'r plentyn i ymgartrefu yn ei gartref gyda'i deulu newydd. Rhaid ystyried anghenion aelodau eraill o'r teulu hefyd, megis plant y darpar warcheidwad arbennig, wrth helpu'r teulu i ymgyfarwyddo â'r trefniant newydd. Rhaid i asesiadau hefyd gynnwys perthnasau teuluol ehangach a pha gyswllt sydd gan y plentyn gyda'i rieni biolegol, neiniau a theidiau a brodyr a chwiorydd a gallu'r darpar warcheidwad arbennig i reoli'r rhain (gyda chefnogaeth, fel bo angen).

2.19. Lle bynnag y bo'n bosibl, rhaid i awdurdodau lleol sicrhau eu bod yn caniatáu digon o amser i wneud asesiadau ansawdd cadarn a myfyrgar. Nid oes gan lawer o'r perthnasau y cynigir eu henwau, neu a ddônt i'r amlwg fel gwarcheidwaid arbennig posibl yn ystod achosion llys, ddigon o wybodaeth am yr hyn y mae'n ei olygu i fod yn warcheidwad arbennig. Nid ydynt ychwaith wedi cael digon o amser na chefnogaeth i ystyried y gofynion sydd ynghlwm â bod yn warcheidwad arbennig a maint yr ymroddiad sydd ei angen dros sawl blwyddyn. Ni fydd llawer erioed wedi ystyried ymgymryd (neu ail-ymgymryd) â swyddogaeth rhiant. At hyn, mae'n bosibl nad oedd darpar warcheidwaid arbennig yn ymwybodol o'r niwed y mae'r plentyn wedi ei ddioddef. Efallai y bydd angen amser arnyn nhw i ddod i delerau'n llwyr â hynny a chyda'r agweddau amddiffynnol y bydd eu hangen o bosibl yn y dyfodol os oes unrhyw gyswllt gyda rhieni'r plentyn.

2.20. Bydd ymyrraeth gynnar ac adnabod gofalwyr posibl o blith y teulu mewn da bryd yn helpu i sicrhau bod gan awdurdodau ddigon o amser i roi sylw trylwyr i'r materion hyn a gwneud asesiadau ansawdd. Mae'n rhaid i awdurdodau lleol, lle bynnag y bo'n bosibl, drafod gyda theuluoedd yn gynnar yn ystod y broses i gytuno ar ba drefniadau parhaol all fod yn bosibl, ac i sicrhau bod teuluoedd yn llwyr ddeall yr angen i enwebu gofalwyr gwahanol yn y teulu. Gall cyfarfodydd teuluol yn ystod y cyfnod hwn helpu teuluoedd i ddechrau rhoi sylw i gymhlethdodau rheoli cyswllt a'r gefnogaeth ymarferol ac ariannol y bydd eu hangen o bosibl. Gall hyn rwystro oedi yn nes ymlaen pan fo'r achosion cyfreithiol yn dechrau. Rhaid i awdurdodau lleol sicrhau bod ganddyn nhw drefniadau mewn grym ar adeg briodol i hwyluso cyfarfodydd teuluol.

<u>Cynnwys yr adroddiadau</u>

2.21. Rhaid i adroddiad yr awdurdod lleol roi sylw i:

- addasrwydd y darpar warcheidwad arbennig
- materion wedi eu nodi yn y Rheoliadau
- unrhyw wybodaeth arall y mae'r awdurdod lleol yn ei hystyried yn berthnasol
- (lle bo'n briodol) anghenion cymorth a sut y cânt eu diwallu.

2.22. **Caiff y materion penodol eu nodi'n llawn yn Atodlen y Rheoliadau fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau 2018. Mae'n rhaid i awdurdodau lleol gyfeirio at yr Atodlen hon wrth asesu a pharatoi eu hadroddiadau.**

Mae'r materion penodol yn cynnwys:

- gwybodaeth am y plentyn, yn cynnwys:
  - ✓ cefndir unigolynol, gan gynnwys unrhyw niwed a ddioddefodd a pherygl o niwed yn y dyfodol
  - ✓ manylion unrhyw orchymyn wedi ei wneud gan lys parthed y plentyn, ac unrhyw hanes gofal gan gynnwys lleoliadau
  - ✓ unrhyw niwed y mae'r plentyn wedi ei ddioddef, a pherygl o niwed yn y dyfodol
  - ✓ anghenion presennol neu debygol yn y dyfodol mewn cysylltiad â datblygiad corfforol, cymdeithasol, emosiynol neu ymddygiadol y plentyn
  - ✓ hanes iechyd y plentyn a disgrifiad ohono
  - ✓ faint o gyswllt sydd ag aelodau eraill y teulu
  - ✓ cyflawniad addysgol (gan gynnwys anghenion dysgu ychwanegol) a'r ysgolion / ysgolion meithrin a fynychwyd.
  - ✓ dymuniadau a theimladau ynglŷn â'r trefniant gwarcheidiaeth arbennig arfaethedig, cyswllt a magwraeth grefyddol a diwylliannol
  - ✓ disgrifiad o bersonoliaeth, datblygiad cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol ac unrhyw anghenion cysylltiedig
  - ✓ diddordebau, hoff a chas bethau

- gwybodaeth ynglŷn â theulu'r plentyn, gan gynnwys:
  - ✓ rhieni, perthnasau a chefndir teuluol, gan gynnwys hanes iechyd, personoliaeth a pherthnasau
  - ✓ trefniadau gofal ac unrhyw orchmynion llys sydd wedi eu gwneud parthed unrhyw frodyr a chwiorydd
  - ✓ barn y rhieni am y cais

- gwybodaeth am y darpar warcheidwad/waid arbennig a'u cartref, gan gynnwys:

  - ✓ cefndir gan gynnwys sefydlogrwydd y berthynas gyda'r cymar
  - ✓ iechyd, cyflawniad addysgol, gwaith, unigolynoliaeth a diddordebau
  - ✓ y cartref, gan gynnwys incwm a safon byw
  - ✓ profiad presennol a blaenorol o ofalu am blant

- ✓ unrhyw asesiadau blaenorol ynglŷn â'r posibilrwydd o fabwysiadu, bod yn rhiant maeth neu yn warcheidwad arbennig
- ✓ unrhyw bryderon ar hyn o bryd neu yn y gorffennol am ofal unrhyw blant eraill
- ✓ y gallu i rianta
- ✓ y gallu i gadw'r plentyn y ddiogel
- ✓ manylion unrhyw achosion llys teuluol blaenorol y buwyd yn rhan ohonynt
- ✓ rhesymau dros ymgeisio am orchymyn gwarcheidiaeth arbennig, dealltwriaeth o'r hyn sydd ynghlwm, a gobeithion a disgwyliadau ynglŷn â dyfodol y plentyn
- ✓ natur eu perthynas gyda'r plentyn ar hyn o bryd ac yn y gorffennol
- ✓ dealltwriaeth a'r gallu i ddarparu ar gyfer anghenion presennol y plentyn ac anghenion tebygol yn y dyfodol (yn enwedig unrhyw anghenion yn deillio o unrhyw niwed y mae'r plentyn wedi ei ddioddef, ac i amddiffyn y plentyn rhag niwed, yn awr ac yn y dyfodol
- ✓ y gallu, addasrwydd ac ymrwymiad i fagu'r plentyn nes ei fod yn 18
- ✓ manylion trefniadau byw arfaethedig ar gyfer y plentyn, os yw'r rhain yn debygol o newid ar ôl gwneud gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig
- ✓ barn oedolion a phlant eraill yn y cartref
- ✓ barn aelodau allweddol o'r teulu estynedig
- ✓ perthynas bresennol a blaenorol gyda'r rhieni biolegol, lle bo'n briodol
- ✓ dymuniadau a theimladau o ran cyswllt gyda pherthnasau'r plentyn a phobl eraill perthnasol.

- Gwybodaeth am yr awdurdod lleol, gan gynnwys:

  - ✓ manylion am unrhyw ymwneud rhwng yr awdurdod lleol a'r darpar warcheidwad arbennig, gan gynnwys unrhyw baratoadau yn y gorffennol i'r unigolyn hwnnw fod yn rhiant maeth neu'n rhiant sy'n mabwysiadu
  - ✓ unrhyw asesiad am wasanaethau cymorth gwarcheidiaeth arbennig (ac, os yw'r awdurdod wedi penderfynu peidio â darparu'r gwasanaethau hynny, y rhesymau pam)
  - ✓ manylion am drafodaethau gydag awdurdod lleol arall os bydd y plentyn yn byw mewn ardal wahanol
  - ✓ argymhelliad ynglŷn â'r trefniadau cyswllt gyda rhieni, brodyr a chwiorydd ac unrhyw unigolyn pwysig arall ym mywyd y plentyn

- ✓ barn yr awdurdod lleol ynghylch a fyddai'r darpar warcheidwad arbennig yn addas ai peidio.

2.23. Rhaid i'r adroddiad gynnwys hefyd, mewn cysylltiad â'r darpar warcheidwad arbennig ac unrhyw aelodau eraill o'i gartref sy'n 18 oed neu hŷn, dystysgrif fanwl o gofnod troseddol a ddyfarnwyd o dan adran 113B o Ddeddf yr Heddlu 1997 sy'n cynnwys gwybodaeth am addasrwydd yn ymwneud â phlant.

2.24. Rhaid i gasgliadau'r awdurdod lleol gynnwys yr ystyriaethau canlynol:

- crynodeb o iechyd y plentyn a'r darpar warcheidwad arbennig, wedi ei baratoi gan feddyg
- sut bydd gwneud y gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig yn effeithio ar y plentyn
- sut y bodlonir unrhyw angen iechyd arbenigol sydd gan y plentyn
- ai gwneud gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig fyddai orau i'r plentyn yn yr hir dymor
- sut y bodlonir unrhyw anghenion emosiynol, ymddygiadol ac addysgol sydd gan y plentyn
- effaith gwneud gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig ar rieni'r plentyn, y darpar warcheidwad arbennig, ei deulu neu unrhyw unigolyn perthnasol arall
- argymhelliad ynglŷn â threfniadau cyswllt i'w rhoi ar waith gyda pherthnasau a phobl eraill berthnasol.
- Os yw'n briodol, mae'n werth gwneud unrhyw fath arall o orchymyn parthed y plentyn.

## 3. Darparu gwasanaethau cymorth

3.1. Mae'r bennod hon yn amlinellu'r gwasanaethau cymorth gwarcheidiaeth arbennig y mae'n rhaid i awdurdodau lleol drefnu i'w darparu. Bydd darparu'r gwasanaethau hyn i unrhyw unigolyn yn ddibynnol ar asesiad o angen (gweler pennod 4 y cod hwn)

Gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth

3.2. Ni fydd llawer o warcheidwaid arbennig angen dim mwy na gwybodaeth neu gyngor i'w helpu i ofalu am y plentyn sydd yn eu gofal, neu eu cyfeirio at ffynonellau eraill o gyngor a chefnogaeth. Mae'n ddyletswydd ar awdurdodau lleol yng Nghymru i sicrhau gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth sy'n darparu gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth hwylus i bobl leol i'w galluogi i wneud trefniadau er mwyn diwallu eu hanghenion gofal a chefnogaeth, yn awr ac yn y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys y mathau o ofal a chefnogaeth sydd ar gael, a sut mae modd i unigolion gael mynediad atyn nhw.

3.3. Wrth sefydlu eu gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth dylai awdurdodau lleol ystyried anghenion gwarcheidwaid arbennig a darpar warcheidwaid arbennig. Rhaid i awdurdodau lleol ddarparu gwybodaeth ynglŷn â gwarcheidiaeth arbennig sy'n hawdd dod o hyd iddi yn gyhoeddus, (gan gynnwys deunydd hygyrch ar y we) ar gyfer plant a phobl ifanc, gwarcheidwaid arbennig a darpar warcheidiaid arfaethedig. Dylai'r gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth hefyd allu cyfeirio'r bobl hyn at ffynonellau hwylus ac annibynnol o gyngor a gwybodaeth.

Gwasanaethau cymorth sydd angen eu darparu

3.4. Mae'r Rheoliadau yn disgrifio'r gwasanaethau cymorth penodol y mae'n rhaid i awdurdodau lleol drefnu i'w darparu i warcheidwaid arbennig, plant ac i bobl eraill sy'n rhan o drefniadau gwarcheidiaeth arbennig. Nid oes rhaid i awdurdodau lleol ddarparu'r gwasanaethau hyn yn uniongyrchol, ond fe allant drefnu i'w darparu ar y cyd ag asiantaethau eraill, fel bo'n briodol. Rhestrir y gwasanaethau penodol isod.

**Cymorth ariannol**

(a) Cymorth ariannol i warcheidwaid arbennig ac i'r bobl hynny sydd eisiau bod yn warcheidwaid arbennig. Trowch at bennod 5 o'r cod hwn er

mwyn gweld ym mha amgylchiadau y mae'n bosibl cael cymorth ariannol.

**Grwpiau cymorth**

(b) Gwasanaethau i alluogi plant, eu rhieni a gwarcheidwaid arbennig (neu ddarpar warcheidwaid arbennig), sy'n rhan o drefniadau gwarcheidiaeth arbennig neu a fydd, yn fuan iawn, yn trafod materion yn ymwneud â gwarcheidiaeth arbennig. Gall y gwasanaethau hyn gynnwys grwpiau cymorth, grwpiau cyfryngau cymdeithasol a chylchlythyrau.

**Cyswllt**

(c) Cymorth o ran cyswllt rhwng plant sydd neu a fydd, yn fuan iawn, yn rhan o drefniadau gwarcheidiaeth arbennig, a rhiant neu berthynas neu unrhyw unigolyn y bu gan y plentyn berthynas agos ag ef/hi.

Oherwydd nad yw gorchmynion gwarcheidiaeth arbennig yn torri'r berthynas rhwng y rhieni biolegol a'r plentyn, mae angen i warcheidwaid arbennig wybod sut i reoli trefniadau cyswllt rhwng y plentyn a'i deulu. Yn hyn o beth mae'n bosibl y bydd angen hyfforddiant a chefnogaeth ar y gwarcheidwad ynglŷn â sut i ymdrin ag unrhyw faterion neu wrthdaro a allai godi.

**Gwasanaethau therapiwtig**

(d) Gwasanaethau a ddarperir ar gyfer anghenion therapiwtig plant sydd neu a fydd, yn fuan iawn, yn rhan o drefniadau gwarcheidiaeth arbennig. Caiff trefniadau i ddarparu'r math hwn o ofal eu gwneud yn ôl pob tebyg gyda'r GIG neu ddarparwyr eraill.

**Cefnogaeth**

(e) Cefnogaeth i sicrhau parhad y berthynas rhwng plentyn sydd neu a fydd, yn fuan iawn, yn rhan o drefniadau gwarcheidiaeth arbennig a'u gwarcheidwad arbennig (neu ddarpar warcheidwad arbennig).

Mae'r ddeddfwriaeth yn sôn yn arbennig am hyfforddiant i'r (darpar) warcheidwad arbennig, a seibiant byr. Gall yr hyfforddiant gynnwys dosbarthiadau rhianta, neu gyrsiau sydd wedi eu dylunio ar gyfer deall ac ymdrin â math penodol o ymddygiad neu broblemau datblygiad sy'n berthnasol i'r plentyn penodol. Mae'n bosibl y bydd angen gwyliau byr i

roi cyfle i’r plentyn gael seibiant byr at ddibenion hamdden neu addysgiadol, neu i roi seibiant i ofalwr y plentyn. Bydd y cymorth a roddir yn dibynnu ar natur yr angen gafodd ei asesu ac ar amgylchiadau penodol y plentyn a’r gwarcheidwad arbennig.

**Cyfryngu**

(f) Lle bo’r berthynas rhwng plentyn a gwarcheidwad arbennig mewn peryg o chwalu, mae cymorth ar gael i atal hynny rhag digwydd, gan gynnwys:

- cyfryngu - er enghraifft, ynglŷn â materion yn ymwneud â chyswllt rhwng y plentyn a’i rieni biolegol neu aelodau eraill o’r teulu
- cyfarfodydd rhwng pobl briodol i fynd i’r afael â’r anawsterau yn y berthynas.

<u>Cynllunio a threfnu darpariaeth</u>

3.5. Ni ddylid ystyried gwasanaethau cymorth gwarcheidiaeth arbennig ar wahân i wasanaethau prif ffrwd. Wrth ystyried gwasanaethau cymorth gwarcheidiaeth arbennig, dylai awdurdodau lleol ystyried darpariaeth gwasanaethau tebyg, megis gwasanaethau cymorth mabwysiadu, a chynllunio i ddarparu gwasanaethau cymorth yn unol â hynny.

3.6. Rhaid i awdurdodau lleol sicrhau y caiff anghenion gwarcheidwaid arbennig, a phlant a rhieni sy’n rhan o drefniadau gwarcheidiaeth arbennig, eu cynnwys wrth gynllunio a darparu gwasanaethau prif ffrwd ar gyfer plant, pobl ifanc a theuluoedd gydag anghenion penodol. Mae’r rhain yn cynnwys gwasanaethau iechyd, gan gynnwys gwasanaethau iechyd meddwl plant a phobl ifanc; darpariaeth addysgol, gan gynnwys darpariaeth anghenion dysgu ychwanegol; tai; a gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth.

3.7. Wrth gynllunio gwasanaethau cymorth gwarcheidiaeth arbennig, mae’n rhaid i awdurdodau lleol ystyried bod y plant sy’n destun gorchmynion gwarcheidiaeth arbennig yn rhannu nifer o’r un nodweddion â phlant sy’n derbyn gofal, er nad plant sy’n derbyn gofal mohonynt. Bydd rhai yn blant a oedd yn arfer derbyn gofal, bydd eraill wedi bod ar ffiniau gofal neu’n blant sy’n dod o deuluoedd mewn argyfwng. Bydd eraill wedi cael profiadau niweidiol yn ystod eu plentyndod, yn gysylltiedig yn aml â chamdriniaeth neu esgeulustod. Rhaid i awdurdodau lleol sicrhau bod gwarcheidwaid arbennig a’r plant y maen nhw’n gofalu amdanynt yn rhan o’r broses o gynllunio gwasanaethau gofal a chymorth lleol.

3.8. Er bod awdurdodau lleol yn gyfrifol am drefnu darpariaeth gwasanaethau cymorth gwarcheidiaeth arbennig, nid oes rhaid i'r awdurdod lleol ddarparu'r gwasanaeth ei hun. Mae'r Rheoliadau yn disgrifio'r amrywiaeth o ddarparwyr y caiff yr awdurdod lleol ddirprwyo neu gontractio gwasanaethau gwarcheidiaeth arbennig iddynt:

- awdurdod lleol arall
- asiantaeth cymorth mabwysiadu
- Bwrdd Iechyd Lleol, Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol neu (yn Lloegr) grwpiau comisiynu clinigol a Bwrdd Comisiynu'r GIG
- asiantaeth fabwysiadu wirfoddol
- asiantaeth faethu annibynnol.

3.9. Mae'n bosibl y bydd gan y sectorau gwirfoddol ac annibynnol swyddogaeth bwysig wrth ddarparu'r gwasanaethau cymorth gwarcheidiaeth arbennig. Wrth ddatblygu gwasanaethau cymorth, anogir awdurdodau lleol i weithio gyda chyrff anstatudol sydd eisoes yn darparu gwasanaethau cymorth o ansawdd er mwyn manteisio ar yr arbenigedd sydd ganddyn nhw yn y maes hwn ac i osgoi darparu gwasanaeth i'r un unigolyn ddwywaith.

## 4. Asesu ar gyfer gwasanaethau cymorth

4.1. Mae’r bennod hon yn disgrifio’r trefniadau ynglŷn ag asesu anghenion plant, gwarcheidwaid arbennig a darpar warcheidwaid arbennig, ac aelodau eraill o’r teulu, ar gyfer gwasanaethau cymorth gwarcheidiaeth arbennig

Pobl sy’n gymwys i gael asesiad

4.2. Mae’r bobl ganlynol yn gymwys i ofyn am asesiad o’u hanghenion ar gyfer derbyn gwasanaethau cymorth gwarcheidiaeth arbennig (mewn achosion cyfraith gyhoeddus neu breifat):

- plentyn sy’n destun gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig neu riant plentyn o’r fath;
- plentyn y mae unigolyn wedi hysbysu awdurdod lleol o’i fwriad i ymgeisio am orchymyn gwarcheidiaeth arbennig ar ei gyfer neu riant plentyn o’r fath;
- plentyn y mae’r llys wedi gofyn am adroddiad awdurdod lleol mewn cysylltiad ag ef neu riant plentyn o’r fath;
- plentyn sy’n destun, neu sydd wedi ei enwi mewn, adroddiad awdurdod lleol i’r llys;
- gwarcheidwad arbennig neu ddarpar warcheidwad arbennig;
- plentyn gwarcheidwad arbennig neu ddarpar warcheidwad arbennig;
- perthynas plentyn sydd wedi ei ddisgrifio yn y tri phwynt bwled cyntaf os oedd trefniadau cyswllt ar waith cyn y cais am asesiad.

4.3. Rhaid i awdurdod lleol hysbysu’r holl bobl uchod o’u hawl i ofyn am asesiad ynglŷn â derbyn gwasanaethau cymorth gwarcheidiaeth arbennig ym mhob cam priodol (h.y. pan wneir cais, ac unwaith eto pan fo’r gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig mewn grym).

4.4. Nid fydd pob darpar warcheidwad arbennig neu deulu yn dymuno cael asesiad – er enghraifft, os yw’r plentyn eisoes yn byw gyda’r aelod o’r teulu neu gyda gofalwr maeth sy’n dymuno bod yn warcheidwad arbennig y plentyn – ond mae’n rhaid i’r awdurdod lleol bob amser eu gwneud yn ymwybodol o’u hawl unwaith iddyn nhw gael y cais.

4.5. Bydd sicrhau y caiff anghenion cymorth y plentyn a / neu'r darpar warcheidwad arbennig eu deall yn llawn a’u bodloni yn ystyriaeth bwysig wrth wneud argymhelliad ynghylch addasrwydd a llwyddiant tebygol y trefniant gwarcheidiaeth arbennig.

4.6. Os na wneir cais am asesiad, rhaid i awdurdod lleol gofnodi'r ffaith hwn yn yr adroddiad i'r llys a rhoi'r rhesymau. Os nad oes cais am asesiad, ac y gwneir gorchymyn gwarcheidwaeth arbennig maes o law, rhaid i'r awdurdod lleol hysbysu'r plentyn a'r gwarcheidwad arbennig o'u hawl i ofyn am asesiad os yw eu hamgylchiadau'n newid. Bydd hyn yn arbennig o bwysig yn achos plant iau pan mae'n bosibl y bydd y gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig yn parhau am sawl blwyddyn nes i'r plentyn gyrraedd 18 oed. Mae'n caniatáu i'r plant hyn, eu gwarcheidwaid arbennig ac aelodau eraill o'r teulu ofyn am asesiad ychwanegol am gymorth ychwanegol wrth i'w perthynas neu amgylchiadau teuluol ddatblygu neu newid dros amser.

4.7. Mae'r rheoliadau'n caniatáu i'r awdurdod lleol gyfyngu'r asesiad i'r angen am wasanaeth cymorth gwarcheidiaeth arbennig penodol:

- os yw'r unigolyn sy'n gofyn am yr asesiad wedi gofyn am wasanaeth cymorth penodol mewn cysylltiad â gwarcheidiaeth arbennig, neu
- os yw'n ymddangos i'w awdurdod lleol bod modd gwneud asesiad digonol o anghenion yr unigolyn mewn cysylltiad â dim ond un gwasanaeth cymorth penodol.

4.8. Fodd bynnag, dylai awdurdodau lleol fod yn hyblyg a chynhwysfawr wrth asesu. Os daw hi'n amlwg, yn ystod yr asesiad am wasanaeth penodol, fod gan y plentyn neu'r gwarcheidwad arbennig anghenion cymorth eraill, dylai'r awdurdod lleol gymryd y camau angenrheidiol i sicrhau y caiff anghenion yr unigolyn eu hasesu a'u diwallu'n briodol. Gall hyn olygu cyfeirio'r unigolyn at Wasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chefnogaeth yr awdurdod lleol, ehangu'r asesiad i gynnwys yr angen am wasanaethau cymorth gwarcheidiaeth arbennig eraill, a / neu asesu anghenion yr unigolyn i weld a yw ei anghenion gofal a chefnogaeth yn unol â Rhan 3 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Os daw plentyn sy'n derbyn gofal yn destun gorchymyn gwarchodaeth arbennig, caiff y rhannau perthnasol o gynllun gofal a chefnogaeth Rhan 6 y plentyn eu trosi i gynllun gofal a chefnogaeth Rhan 4. Bydd hyn yn cynnwys unrhyw drefniadau o ran darparu unrhyw wasanaethau cymorth gwarcheidiaeth arbennig.

Yr awdurdod lleol cyfrifol

4.9. Os gwneir asesiad am gymorth ochr yn ochr â'r asesiad o addasrwydd a pharatoi'r adroddiad ar gyfer y llys, yr awdurdod lleol cyfrifol yw'r awdurdod y gwnaed y cais gwarcheidiaeth arbennig iddo. Yn achos plentyn sy'n derbyn gofal, yr awdurdod sy'n gofalu am y plentyn fydd hyn; ac mewn

unrhyw achos arall, yr awdurdod y mae'r ymgeisydd fel arfer yn byw ynddo (ni waeth lle mae'r plentyn yn byw ar y pryd).

4.10. Unwaith y gwneir y gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig, yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am gynnal unrhyw asesiadau pellach ynglŷn â chymorth gwarcheidiaeth arbennig fydd:

- yr awdurdod lleol a oedd yn arfer gofalu am y plentyn, am y tair blynedd gyntaf ar ôl gwneud y gorchymyn, os oedd y plentyn yn derbyn gofal cyn gwneud y gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig
- ym mhob achos arall, (gan gynnwys os yw'r cyfnod tair blynedd wedi dod i ben), yr awdurdod lleol y mae'r plentyn a'r gwarcheidwad arbennig fel arfer yn byw ynddo.

<u>Y drefn asesu</u>

4.11. Rhaid i awdurdod lleol sicrhau y caiff asesiad o angen unigolyn i dderbyn gwasanaethau cymorth gwarcheidiaeth arbennig ei wneud gan, neu o dan oruchwyliaeth, unigolyn sydd â chymwysterau, profiad a sgiliau addas i'r diben hwnnw. Rhaid cydlynu'r asesiad i sicrhau y caiff pob asiantaeth ac unigolyn perthnasol eu cynnwys.

4.12. Mae Adran 14F o Ddeddf Plant 1989 yn caniatáu i awdurdod lleol gynnal asesiad am gefnogaeth gwarcheidiaeth arbennig ar yr un pryd ag y cynhelir yr asesiad o angen o dan ddeddfwriaeth arall. Bydd hyn yn neilltuol o bwysig os yw hi'n eglur bod gan y plentyn anghenion gofal a chymorth ehangach, neu os oes gan y gwarcheidwad (neu'r darpar warcheidwad arbennig) anghenion cefnogaeth, o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (gweler yr adran ar 'maint y gefnogaeth' isod).

4.13. Yn ystod yr asesiad o anghenion, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol ystyried y canlynol, os yw'n berthnasol:

- anghenion yr unigolyn sy'n cael ei asesu a sut mae modd eu diwallu
- anghenion y plentyn perthnasol ac aelodau teulu unrhyw warcheidwad arbennig neu ddarpar warcheidwad arbennig
- yr amgylchiadau a arweiniodd at wneud gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig
- unrhyw anghenion arbennig sydd gan y plentyn sy'n destun y gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig sy'n deillio o'r ffaith
  - ✓ bod y plentyn wedi derbyn gofal gan yr awdurdod lleol
  - ✓ bod y plentyn wedi bod yn byw yn gyson y tu allan i Ynysoedd Prydain
  - ✓ bod y gwarcheidwad arbennig yn berthynas i'r plentyn
  - ✓ bod a wnelo'r asesiad â chymorth ariannol.

4.14. Rhaid i awdurdod lleol gyfweld yr unigolyn sy'n cael ei asesu ynghylch ei angen i dderbyn gwasanaethau cymorth gwarcheidiaeth arbennig. Os mai plentyn yw'r unigolyn hwnnw, mae'n rhaid cyfweld y gwarcheidwad arbennig neu'r darpar warcheidwad arbennig. Os mai anghenion plentyn sy'n cael eu hasesu, rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau y caiff y plentyn ei gyfweld mewn modd sy'n briodol i'w oedran a lefel ei ddealltwriaeth, fel bod modd darganfod yn briodol beth yw barn, dymuniadau a theimladau'r plentyn a'u dwyn i ystyriaeth. Rhaid hysbysu plentyn sy'n derbyn gofal o'i hawl i gael gwasanaeth cyfryngu annibynnol.

4.15. Os yw'r awdurdod lleol yn tybio bod perthynas eisoes yn bodoli rhwng rhiant y plentyn a'r gwarcheidwad arbennig neu'r darpar warcheidwad arbennig (er enghraifft, os yw gwarcheidwad arbennig plentyn yn berthynas), rhaid i'r asesiad hefyd ystyried effaith debygol y gorchymyn ar y berthynas rhwng y plentyn, y rhiant a'r gwarcheidwad arbennig neu'r darpar warcheidwad arbennig.

4.16. Rhaid i asesiadau ar gyfer gwasanaethau cymorth gwarcheidiaeth arbennig roi ystyriaeth i anghenion datblygiadol y plentyn ynghyd â gallu'r gwarcheidwaid arbennig i rianta. Dylid ystyried hefyd y ffactorau teuluol ac amgylcheddol sydd gyda'i gilydd yn gymorth i egluro bywyd y plentyn hyd yn hyn a sut allai bywyd fod gyda'r teulu newydd. Gall asesiadau blaenorol o blentyn sydd wedi bod yn derbyn gofal gan awdurdod lleol fod o gymorth wrth lunio'r asesiad o anghenion cymorth gwarcheidwaeth arbennig.

4.17. Ar ôl cynnal asesiad o'r angen am wasanaethau cymorth gwarcheidiaeth arbennig, rhaid i'r awdurdod lleol baratoi adroddiad ysgrifenedig o'r asesiad.

Diwallu anghenion gofal a chymorth

4.18. Bydd gan bob teulu anghenion gwahanol. Mae'n debyg y bydd angen gwybodaeth a chyngor ar bob teulu ynglŷn â beth mae gwarchodaeth arbennig yn ei olygu. Mae'n debyg hefyd y bydd angen eu cyfeirio at ffynonellau eraill o wybodaeth, cyngor a chefnogaeth megis grwpiau cymorth a gwasanaethau prif ffrwd. Yn y rhan fwyaf o achosion, efallai na fydd angen i awdurdod lleol wneud dim mwy na darparu'r wybodaeth a'r cyngor hwn. Bydd hyn yn arbennig o wir os yw'r trefniant gwarcheidiaeth arbennig yn cadarnhau perthynas hirhoedlog sydd eisoes yn bodoli (er enghraifft, gyda gofalwr sy'n berthynas neu gyn-ofalwr maeth), a phan nad oes gan y plentyn unrhyw anghenion penodol o ran gofal a chefnogaeth heblaw am yr anghenion rhianta y mae'r gwarcheidwad arbennig yn eu darparu.

4.19. Mae'n hanfodol sicrhau bod plant a'r teuluoedd hynny sy'n rhan o drefniadau gwarcheidiaeth arbennig yn cael cymorth i ddefnyddio gwasanaethau prif ffrwd, ac yn ymwybodol o'u hawl i gael budd-daliadau lles cymdeithasol a chredydau treth fel bo'n briodol. Rhaid i awdurdodau lleol hysbysu gwarcheidwaid arbennig ynglŷn â sut i ddod o hyd i gymorth pe bai eu hamgylchiadau'n newid ac os byddai anghenion ychwanegol yn dod i'r amlwg. Hefyd, rhaid sicrhau bod y plentyn neu'r unigolyn ifanc yn gwybod sut i ddod o hyd i'r gefnogaeth briodol. Mae'r trefniadau ynghylch cadw mewn cysylltiad â phlant a gwarcheidwaid arbennig, ac o ran darparu gwybodaeth gyfredol iddynt, yn cael sylw ym mhennod 9 y cod hwn (adolygu gwasanaethau cymorth).

4.20. Bydd gan rai teuluoedd broblemau mwy cymhleth neu ddifrifol sydd angen asesiad mwy manwl, sy'n cynnwys cyfraniadau gan asiantaethau eraill. Bydd hyn yn arwain at gynlluniau ac ymyraethau priodol. Bydd gan rai plant sy'n destun trefniant gwarcheidiaeth arbennig anghenion gofal a chymorth ychwanegol, ac mae'n bosibl y bydd gan rai gwarcheidwaid arbennig anghenion cymorth yn deillio o'u swyddogaeth yn gofalu am y plentyn (er enghraifft, os yw'r plentyn yn anabl neu fod ganddo anghenion ymddygiadol neu emosiynol penodol). Mewn amgylchiadau o'r fath caiff gofal a chymorth ei ddarparu fel arfer o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'r codau ymddygiad sy'n berthnasol i Rannau 3 a 4 o'r Ddeddf honno yn disgrifio'r fframwaith ar gyfer asesu a diwallu anghenion gofal a chymorth pobl, ac anghenion cymorth gofalwyr. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd gan blentyn sydd mewn trefniant gwarcheidiaeth arbennig sydd ag anghenion gofal â chymorth hefyd yr hawl i gael asesiad o dan Ran 3 o Ddeddf 2014, ac i gael cynllun gofal a chymorth o dan Ran 4 o'r Ddeddf honno. Mae'n bosibl hefyd y bydd gan y gwarcheidwad arbennig yr hawl i asesiad am gymorth o dan y Ddeddf.

4.21. Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau, lle bo'n briodol, y cynhelir asesiadau ynglŷn â gwasanaethau cymorth gwarcheidiaeth arbennig yn rhan o'r asesiad ar gyfer gofal a chymorth yn unol â Rhan 3 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Os oes cynllun gofal a chymorth gan y plentyn (neu gan y gwarcheidwad arbennig) o dan Ran 4 o'r Ddeddf honno, dylai'r awdurdod lleol gynnwys y cynllun gwasanaethau cymorth gwarcheidiaeth arbennig yn rhan o'r cynllun gofal a chymorth cyffredinol (neu gynllun cymorth y gofalwr), fel bo'n briodol. Fodd bynnag, rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau ei fod yn dal yn cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol sydd arno yn unol â'r Rheoliadau, gan gynnwys y darpariaethau mewn cysylltiad â hysbysu a sylwadau (gweler penodau 5, 6 a 7).

## 5. Cymorth ariannol

5.1. Mae'r bennod hon yn disgrifio'r amgylchiadau pan mae modd rhoi cymorth ariannol i warcheidwaid arbennig neu ddarpar warcheidwaid arbennig, a'r ffactorau sy'n rhaid i awdurdod lleol eu hystyried wrth benderfynu ar swm unrhyw gymorth ariannol.

<u>Amgylchiadau lle mae modd rhoi cymorth ariannol</u>

5.2. Mae'n rhaid i awdurdodau lleol ystyried, asesu, talu a monitro cymorth ariannol ar gyfer teuluoedd sy'n destun gwarcheidiaeth arbennig yn unol â'r Rheoliadau. Diben y darpariaethau hyn yw rhoi mwy o hyblygrwydd i awdurdodau lleol ymateb i anghenion unigol plentyn a'i amgylchiadau.

5.3. Dim ond yn yr amgylchiadau canlynol y mae modd rhoi cymorth ariannol i warcheidwad arbennig neu ddarpar warcheidwad arbennig

(a) Os yw'r plentyn sy'n destun gorchymyn gwarcheidiaeth yn byw gyda'r gwarcheidwad arbennig ac mae'r awdurdod lleol o'r farn bod angen cymorth ariannol er mwyn sicrhau y gall y gwarcheidwad barhau i ofalu am y plentyn.

(b) Os yw'r plentyn y ceisir gorchymyn gwarchodaeth ar ei gyfer, neu y mae llys wedi derbyn adroddiad amdano, yn byw gyda darpar warcheidwad arbennig ac mae'r awdurdod lleol yn ystyried:

- y byddai gwneud gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig yn fanteisiol i'r plentyn
- bod angen cymorth ariannol i sicrhau y gall y darpar warcheidwad arbennig barhau i ofalu am y plentyn nes y ceir penderfyniad gan y llys.

Mae'r ddarpariaeth hon yn caniatáu rhoi cymorth ariannol os yw'r awdurdod lleol o blaid gwneud gorchymyn gwarcheidiaeth, ond ei fod o'r farn bod amheuaeth ynghylch llwyddiant hirdymor perthynas y plentyn gyda'r darpar warcheidwad arbennig heb ddarparu cefnogaeth o'r fath tra bo'r cais yn dal i fod dan ystyriaeth.

(c) Mae'r awdurdod lleol yn ystyried:

- y byddai gwneud gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig, neu orchymyn o ddarpariaeth ariannol i'r plentyn, neu er lles y plentyn, yn fanteisiol i'r plentyn perthnasol.

- ei bod yn briodol cyfrannu at neu dalu unrhyw gostau cyfreithiol, gan gynnwys taliadau llys, a ddaw i ran darpar warcheidwad arbennig neu warcheidwad arbennig sy’n gysylltiedig â’r cais am orchymyn gwarcheidiaeth neu orchymyn am ddarpariaeth ariannol.

(d) Os yw plentyn yn byw gyda gwarcheidwad arbennig (neu ddarpar warcheidwad arbennig) ac mae’r awdurdod lleol o’r farn bod angen gofal arbennig ar y plentyn, sy’n golygu mwy o wariant ariannol, oherwydd salwch, anabledd, problemau ymddygiad neu emosiynol sy’n deillio o esgeulustod neu gamdriniaeth yn y gorffennol.

5.4. Cyn bod cymorth ariannol yn daladwy, rhaid i’r gwarcheidwaid arbennig (neu ddarpar warcheidwaid arbennig) gytuno i hysbysu’r awdurdod ar unwaith os ydyn nhw yn newid eu cyfeiriad, nad yw’r plentyn yn byw gyda nhw mwyach, os yw’r plentyn yn marw neu os yw eu hamgylchiadau ariannol yn newid.

5.5. Rhaid i’r awdurdod lleol ddod â’r cymorth ariannol i ben o’r dyddiad y byddant yn dod yn ymwybodol o unrhyw un o'r amgylchiadau canlynol:

- nad yw’r gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig bellach yn weithredol (er enghraifft, oherwydd bod y plentyn wedi cyrraedd 18 oed) neu fod y llys wedi ei ddiddymu.
- nad yw’r plentyn bellach yn byw gyda’r gwarcheidwad arbennig
- bod y plentyn yn derbyn cymhorthdal incwm neu lwfans ceisio gwaith
- bod y plentyn wedi cael swydd gyflogedig lawn amser

5.6. Ni ddylid ystyried cyfnodau byr neu ysbeidiol pan fydd y plentyn yn absennol o gartref y gwarcheidwad arbennig: er enghraifft, mewn cysylltiad â’i addysg, gwyliau byr (gofal ‘seibiant’) neu pan fo yn yr ysbyty. Dylai cymorth ariannol ddod i ben dim ond os tybir bod y plentyn wedi ymadael â chartref y gwarcheidwad arbennig yn barhaol.

5.7. Rhaid i awdurdod lleol adolygu’r cymorth ariannol a ddarperir o leiaf unwaith y flwyddyn (gweler pennod 10 y cod hwn). Rhaid iddo hefyd gynnal adolygiad os daw i’w sylw y bu newid perthnasol yn amgylchiadau’r unigolyn sy’n derbyn y cymorth. At hynny, rhaid i’r gwarcheidwaid arbennig roi gwybod i’r awdurdod lleol os yw eu hamgylchiadau ariannol wedi newid neu os yw anghenion neu adnoddau ariannol y plentyn wedi newid.

<u>Penderfynu ar faint y cymorth ariannol</u>

5.8. Mae’r Rheoliadau yn disgrifio’r ffactorau y mae’n rhaid i’r

awdurdod lleol eu hystyried wrth benderfynu ar swm y cymorth ariannol i'w ddyfarnu. Mae'r rhain wedi eu rhestru isod.

(a) Yr adnoddau ariannol sydd ar gael i'r gwarcheidwad arbennig neu'r darpar warcheidwad arbennig

(b) Y swm sydd ei angen ar y gwarcheidwad arbennig neu'r darpar warcheidwad arbennig o ran gwariant a chostau rhesymol ar wahân i'r hyn a gaiff yng nghyswllt y plentyn perthnasol.

(c) Anghenion ac adnoddau'r plentyn perthnasol.

(d) Gwariant angenrheidiol ar gostau cyfreithiol, gan gynnwys taliadau llys mewn cysylltiad â'r gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig neu gais am ddarpariaeth ariannol ar gyfer y plentyn perthnasol.

(e) Y costau sydd ynghlwm â helpu'r plentyn i symud i'w gartref gyda'r gwarcheidwad arbennig. Mae hyn yn golygu'r gost o gartrefu'r plentyn, gan gynnwys:

- dodrefn
- offer cartref
- addasiadau a newidiadau i'r cartref
- darparu dull o drafnidiaeth
- dillad, teganau ac unrhyw eitemau angenrheidiol eraill er mwyn gofalu am y plentyn.

(f) Y costau sy'n gysylltiedig ag unrhyw anghenion dysgu ychwanegol neu anghenion ymddygiadol y plentyn, gan gynnwys:

- offer i fodloni unrhyw anghenion arbennig
- trwsio unrhyw ddifrod y mae'r plentyn wedi ei wneud yn y cartref, os yw'r costau hyn yn deillio o anghenion dysgu ychwanegol y plentyn neu anawsterau ymddygiad
- gosod y plentyn mewn ysgol breswyl, os yw hynny'n angenrheidiol i ddiwallu anghenion addysgol arbennig y plentyn.
- unrhyw gostau eraill mewn cysylltiad â diwallu anghenion addysgol arbennig y plentyn

(g) Y gost o dalu am gostau teithio rhesymol er mwyn i'r plentyn ymweld â rhiant neu berthynas.

5.9. Mae'n bosibl y bydd angen elfen o ofal a chefnogaeth ar blentyn sy'n golygu gwariant ychwanegol os oes ganddo salwch, anabledd, anawsterau emosiynol neu ymddygiad, neu ei fod yn dal i ddioddef effeithiau camdriniaeth neu esgeulustod blaenorol. Yn yr achosion hyn, bydd angen i weithwyr meddygol a gweithwyr proffesiynol werthuso effaith cyflwr y plentyn a rhoi cyngor i'r awdurdod lleol a fydd yn ei dro yn hysbysu'r gwarcheidwad arbennig. Mae disgwyl i'r awdurdod lleol geisio cyngor meddygol arbenigol lle bo'n briodol.

5.10. Y bwriad yn yr achosion hyn yw talu cymorth ariannol pan fo cyflwr y plentyn yn ddifrifol ac yn hirdymor. Er enghraifft, os oes angen deiet arbennig neu os oes angen newid eitemau fel esgidiau, dillad neu ddillad gwely yn amlach nag yn achos plentyn o oedran tebyg nad yw'n dioddef o'r cyflwr hwnnw. Efallai y bydd angen cymorth arbenigol i helpu'r plentyn i fynd yn rheolaidd i'r ysgol feithrin, o bosibl gyda chymorth ategol, neu ymweld â chlinig neu ymgynghori gyda phediatrydd, a all arwain at gostau annisgwyl i'r gwarcheidwad arbennig.

5.11. **Ni ddylai unrhyw drefniant gwarcheidiaeth arbennig fethu, neu fethu â chael ei weithredu, oherwydd rhwystrau ariannol yn unig.** Er mwyn helpu i sicrhau y caiff rhwystrau ariannol eu goresgyn, mae'n rhaid i awdurdodau lleol:

- sicrhau bod y gwarcheidwad arbennig neu'r darpar warcheidwad a'u teulu arbennig yn ymwybodol o'r holl fudd-daliadau a chredydau treth sydd ar gael iddynt ac yn elwa ohonynt
- ystyried effaith gwarcheidiaeth arbennig ar y gwarcheidwad arbennig neu ar deulu'r gwarcheidwad arbennig (neu ddarpar warcheidwad arbennig) ac a oes angen unrhyw gyfandaliadau i sicrhau llwyddiant y trefniant (er enghraifft, costau ymgartrefu, addasu'r cartref).
- ystyried effaith barhaol y warcheidiaeth arbennig a allai olygu bod angen gwneud taliadau rheolaidd
- ystyried unrhyw amgylchiadau arbennig sy'n berthnasol i'r plentyn a'r (darpar) warcheidwad arbennig (er enghraifft, os yw gofalwyr maeth yn dymuno bod yn warcheidwaid arbennig plentyn y maen nhw eisoes yn gofalu amdano).

5.12. Gall yr awdurdod lleol ddechrau darparu cymorth ariannol, fel bo'n briodol:

- pan wneir gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig, neu
- ar ôl i'r llys ofyn i'r awdurdod lleol am adroddiad ynghylch addasrwydd y darpar warcheidwad arbennig, neu

- ar ôl cael hysbysiad gan y darpar warcheidwad arbennig o'i fwriad i wneud cais am orchymyn gwarcheidiaeth arbennig.

**Beth mae cymorth ariannol yn ei olygu?**

5.13. Bwriedir i'r term 'cymorth ariannol' fod yn berthnasol i'r canlynol:
- cyfandaliad unigol i ddiwallu angen penodol sydd wedi ei asesu
- cyfres o gyfandaliadau i ddiwallu angen penodol sydd wedi ei asesu
- taliad achlysurol neu reolaidd i'w dalu fesul cyfnod i'w bennu gan yr awdurdod lleol i ddiwallu angen penodol parhaol sydd wedi ei asesu.

5.14. Mae'r Rheoliadau yn datgan na ddylai cymorth ariannol gynnwys unrhyw fath o gydnabyddiaeth ariannol am ofal y plentyn (ond gweler isod am drefniadau arbennig ar gyfer gofalwyr maeth sy'n dod yn warcheidwaid arbennig)

5.15. Rhaid i gymorth ariannol y mae awdurdodau lleol yn ei dalu i warcheidwaid arbennig dan y Rheoliadau ategu ac nid dyblygu cymorth ariannol sydd ar gael drwy'r system fudd-daliadau a chredydau treth. Wrth bennu swm y cymorth ariannol i'r gwarcheidwaid arbennig, mae'n rhaid i awdurdodau lleol ystyried yr incwm sy'n daladwy ar ffurf budd-daliadau a chredydau treth.

5.16. Mae'r Rheoliadau yn nodi bod yn rhaid talu cymorth ariannol ar ffurf taliad unigol oni bai fod yr awdurdod lleol a'r derbynnydd yn cytuno y caiff ei dalu mewn rhandaliadau neu yn achlysurol, neu lle bo'r awdurdod yn penderfynu bod yr anghenion yn debygol o arwain at wariant cyson. Yn yr achosion hyn, mae'n bosibl i'r awdurdod lleol nodi dyddiadau'r taliadau a than bryd y'u telir.

5.17. Gall awdurdodau lleol bennu amodau yr ystyriant yn briodol wrth ddarparu cymorth ariannol. Gallai hyn gynnwys amserlen a diben y cymorth ariannol.

Gofalwyr maeth sy'n dod yn ofalwyr arbennig

5.18. Gall gofalwyr maeth sy'n ymgeisio i fod yn warcheidwaid arbennig plentyn y maent wedi'i faethu fod ar eu colled yn ariannol, yn enwedig os ydynt wedi bod yn cael elfen o dâl yn rhan o'u lwfans maethu. Efallai y bydd hyn yn rhwystr rhag ymgeisio am orchymyn gwarcheidiaeth arbennig, ac mae'r Rheoliadau yn caniatáu i awdurdodau lleol ystyried hyn wrth bennu faint o gymorth ariannol i'w roi i ofalwyr maeth sy'n dod yn ofalwyr arbennig.

5.19. Rhoddir taliadau maethu i gydnabod y gwasanaeth y mae'r rhiant maeth yn ei ddarparu i awdurdod lleol wrth ofalu am blentyn sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol hwnnw, neu i gydnabod sgiliau neu brofiad penodol all fod gan y gofalwr maeth. Gan na fydd y plentyn maeth yn derbyn gofal ar ôl gwneud y gorchymyn gwarcheidiaeth, ac oherwydd na all cymorth ariannol ar gyfer gwarcheidiaeth arbennig gynnwys unrhyw elfen o gydnabyddiaeth, bydd gofalwyr maeth yn colli'r hawl i gael yr elfen 'wobrwyol' hon wrth ddod yn warcheidwad arbennig y plentyn.

5.20. Fodd bynnag, mae Rheoliad 7(4) yn caniatáu i awdurdodau lleol ddarparu cymorth ariannol y tu hwnt i'r swm arferol os yw'r gwarcheidwad arbennig yn rhiant maeth i'r plentyn. Nid yw hwn yn hawl awtomatig. Caiff amgylchiadau ariannol y darpar warcheidwad arbennig eu hystyried mewn cysylltiad ag anghenion y plentyn pan fo'r awdurdod lleol yn asesu'r anghenion cymorth. Mewn rhai achosion bydd yr awdurdod lleol yn penderfynu bod modd i'r darpar warcheidwad arbennig dalu am y costau ychwanegol o ofalu am y plentyn fel aelod parhaol o'r teulu heb orfod gwneud unrhyw daliadau ychwanegol iddo. Mewn achosion eraill bydd yr awdurdod lleol yn penderfynu y dylid talu mwy o gymorth ariannol i hwyluso'r broses bontio o fod yn ofalwr maeth i fod yn ofalwr arbennig y plentyn.

5.21. Rhaid i'r awdurdod lleol benderfynu ei fod yn talu'r cymorth ariannol hwn cyn y gwneir y gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig, ac mae'n rhaid i'r taliadau ychwanegol ddod i ben ar ôl dwy flynedd oni fydd yr awdurdod lleol o'r farn bod y taliadau'n angenrheidiol oherwydd amgylchiadau eithriadol.

5.22. Diben y cyfnod pontio o ddwy flynedd yw galluogi awdurdodau lleol i barhau i wneud taliadau i ofalwyr maeth sy'n dod yn warcheidwaid arbennig, a hynny ar yr un gyfradd a gawsant pan oeddent yn maethu'r plentyn. Dylai hyn roi amser i'r teulu addasu i'w hamgylchiadau newydd.

## 6. Ar ôl asesu: Hysbysiad o ganlyniad

6.1. Mae'r bennod hon yn disgrifio'r drefn sy'n bodoli i hysbysu gwarcheidwad arbennig neu ddarpar warcheidwad arbennig o ganlyniad asesiad am wasanaethau cymorth, a'r cyfle i gyflwyno sylwadau.

<u>Gwybodaeth y mae'n rhaid ei rhoi</u>

6.2 Mae Rheoliad 8 yn nodi bod yn rhaid i'r awdurdod lleol, ar ôl cynnal asesiad am wasanaethau cymorth gwarcheidiaeth arbennig, ddarparu'r wybodaeth ganlynol i'r unigolyn a gafodd ei asesu:

- barn dros dro yr awdurdod am angen yr unigolyn am wasanaethau cymorth gwarcheidiaeth arbennig.
- a yw'r awdurdod lleol yn bwriadu darparu gwasanaethau cymorth gwarcheidiaeth arbennig i'r unigolyn hwnnw
- manylion y gwasanaethau, os o gwbl, y bwriedir eu darparu
- os yw'r asesiad yn berthnasol i angen yr unigolyn hwnnw am gymorth ariannol, ar ba sail y caiff y cymorth ariannol ei bennu, y swm arfaethedig a fyddai'n daladwy, ac unrhyw amodau y mae'r awdurdod lleol yn bwriadu eu pennu.

6.3 Rhaid i'r awdurdod lleol hefyd hysbysu'r unigolyn a gafodd ei asesu o'i hawl i gyflwyno sylwadau. Mae'n rhaid i'r hysbysiad hefyd nodi'r cyfnod amser sydd gan yr unigolyn i gyflwyno sylwadau.

6.4 Wrth roi canlyniad yr asesiad i'r unigolyn, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol gyfeirio'r unigolyn at ffynonellau o gyngor a chyfryngu annibynnol.

6.5 Rhaid cyflwyno hysbysiad yn ysgrifenedig. Mae pennod 7 y cod hwn yn disgrifio'r gofynion penodol o ran yr unigolyn y mae'n rhaid cyflwyno'r hysbysiad iddo.

<u>Cyflwyno sylwadau</u>

6.6 Mae gan yr unigolyn a gafodd hysbysiad yr hawl i gyflwyno sylwadau i'r awdurdod lleol am y cynigion i ddarparu (neu beidio â darparu) wasanaethau cymorth gwarcheidiaeth arbennig, o fewn y cyfnod a nodir yn yr hysbysiad. Mae'r hawl i gyflwyno sylwadau yn gyfle i ymgeiswyr sicrhau bod yr awdurdod lleol wedi ystyried yr holl amgylchiadau perthnasol.

6.7 Rhaid i awdurdodau lleol nodi cyfnod o 28 diwrnod o'r amser yr anfonir y penderfyniad arfaethedig at yr ymgeiswyr oni fydd amgylchiadau arbennig yn golygu bod angen cyfnod byrrach neu hirach.

6.8 Mae Rheoliad 8(4) yn nodi na chaiff yr awdurdod lleol wneud penderfyniad ynglŷn â darparu gwasanaethau cymorth gwarcheidiaeth arbennig nes bod sylwadau wedi eu cyflwyno neu nes bod yr amser ar gyfer cyflwyno sylwadau wedi dod i ben. Fodd bynnag, mae’r rheoliad hefyd yn caniatáu’r hyblygrwydd i awdurdodau lleol wneud penderfyniad cyn i’r cyfnod ar gyfer cyflwyno sylwadau ddod i ben. Gall hyn ddigwydd os yw’r unigolyn a gafodd ei asesu yn dweud wrth yr awdurdod ei fod yn hapus gyda’r cynnig, neu os yw’r unigolyn yn cyflwyno sylwadau yn ysgrifenedig cyn diwedd y cyfnod. Dylai’r hyblygrwydd hwn sicrhau nad oes oedi wrth ddarparu gwasanaethau pan mae’r rhain yn angenrheidiol i wneud i’r trefniant gwarcheidiaeth arbennig weithio.

# 7 Ar ôl asesu: Hysbysiad o benderfyniad

7.1 Mae'r bennod hon yn ymdrin â phenderfyniad awdurdod lleol ynglŷn â pha gymorth gwarcheidiaeth arbennig i'w roi i unigolyn ar ôl asesiad.

Gwneud penderfyniad

7.2 Ar ôl ystyried unrhyw sylwadau a ddaeth i law ac ystyried yr asesiad o anghenion, rhaid i'r awdurdod lleol benderfynu a yw am ddarparu unrhyw wasanaethau cymorth gwarcheidiaeth arbennig ai peidio. Wrth wneud y penderfyniad hwn, mae'n rhaid i awdurdod lleol:

- ystyried a oes angen gwasanaethau cymorth gwarcheidiaeth arbennig ar yr unigolyn yr aseswyd ei anghenion, a
- phenderfynu a yw am ddarparu unrhyw wasanaethau cymorth gwarcheidiaeth arbennig i'r unigolyn hwnnw.

Hysbysu

7.3 Ar ôl gwneud penderfyniad, mae'n ofynnol i'r awdurdod lleol roi gwybod am y penderfyniad, gan gynnwys y rhesymau dros wneud y penderfyniad.

7.4 Os yw'r asesiad anghenion yn ymwneud â darparu **gwybodaeth** yn unig, nid yw'n ofynnol i'r awdurdod lleol roi hysbysiad os nad ymddengys hyn yn briodol.

7.5 Rhaid rhoi hysbysiad yn ysgrifenedig. Mae pennod 7 y cod hwn yn nodi'r gofynion penodol o ran yr unigolyn y mae'n rhaid ei hysbysu.

7.6 Os yw'r awdurdod lleol wedi penderfynu darparu **cymorth ariannol** i warcheidwad arbennig neu ddarpar warcheidwad arbennig, rhaid iddo ddarparu'r wybodaeth ganlynol i'r unigolyn hwnnw yn ysgrifenedig:

- swm y cymorth ariannol i'w dalu
- yr amodau, os o gwbl, a bennir ar y ddarpariaeth neu ar y defnydd o'r cymorth ariannol
- y dyddiad, os o gwbl, ar gyfer bodloni unrhyw amodau
- y goblygiadau o beidio â bodloni unrhyw amodau
- os caiff y cymorth ariannol ei dalu fel un taliad, dyddiad gwneud y taliad
- os caiff y cymorth ariannol ei dalu mewn rhandaliadau neu yn achlysurol, yna pa mor aml fydd hynny, dyddiad y taliad cyntaf, a dyddiad (os o gwbl) y taliad olaf.

7.7 Rhaid i'r hysbysiad hefyd gynnwys gwybodaeth ysgrifenedig sy'n nodi:

- y dull a ddefnyddiwyd i bennu swm y cymorth ariannol
- y trefniadau ar gyfer adolygu, amrywio neu ddod â'r cymorth ariannol i ben
- cyfrifoldeb yr awdurdod lleol i adolygu darpariaeth y cymorth ariannol (gweler pennod 9 y cod hwn).

7.8 Hefyd, os bydd y gwarcheidwad arbennig neu'r darpar warcheidwad arbennig yn cael cymorth ariannol, rhaid i'r hysbysiad gynnwys cyfrifoldebau'r gwarcheidwad arbennig (neu'r darpar warcheidwad arbennig) i roi gwybod i'r awdurdod lleol:

- os yw'n newid cyfeiriad
- os nad yw'r plentyn bellach yn byw gydag ef
- os yw'r plentyn yn marw
- os oes unrhyw newid yn ei amgylchiadau ariannol neu yn anghenion ac adnoddau ariannol y plentyn;

a chyflwyno datganiad blynyddol ysgrifenedig cyflawn i'r awdurdod lleol ynglŷn â'i amgylchiadau ariannol ac anghenion ac adnoddau ariannol y plentyn.

7.9 Os bydd darparwyr gwasanaethau heblaw am y gwasanaethau cymdeithasol wedi bod yn rhan o'r asesiad o anghenion cymorth, dylai'r awdurdod lleol geisio sicrhau, os oes modd, fod penderfyniadau'r darparwyr gwasanaethau hynny yn dilyn yr un amserlen â'r penderfyniadau a wneir dan y rheoliad hwn. Felly gellid rhoi sylw i'r rhain mewn un hysbysiad a chynllun a anfonir gan yr awdurdod lleol, sy'n nodi'r penderfyniadau ar gyfer yr holl becyn cymorth.

# 8 Hysbysiadau

8.1 Mae’r bennod hon yn disgrifio’r gofynion penodol o ran rhoi gwybodaeth a hysbysiadau. Mae’n ymwneud â gwybodaeth â hysbysiadau y mae’n rhaid i awdurdodau lleol eu darparu mewn cysylltiad â chanlyniad asesiadau a’r hawl i gyflwyno sylwadau (pennod 5 y cod hwn), rhoi gwybod am benderfyniadau ynglŷn â gwasanaethau cymorth gwarcheidiaeth arbennig (pennod 6), cynlluniau gwasanaethau cymorth (pennod 8) a gwybodaeth ynglŷn ag adolygiadau (pennod 9)

8.2 Rhaid cyflwyno gwybodaeth a hysbysiadau yn ysgrifenedig, er y bydd angen eu cyflwyno o bosibl ar ffurfiau eraill hefyd mewn rhai amgylchiadau penodol.

<u>Pobl y mae angen eu hysbysu</u>

8.3 Rhaid cyflwyno unrhyw hysbysiad i’r unigolyn a aseswyd ar gyfer gwasanaethau cymorth gwarcheidiaeth arbennig, gan gynnwys cymorth ariannol, ac i bobl eraill fel y nodir isod.

8.4 Os yw’r unigolyn yn oedolyn, rhaid rhoi’r hysbysiad i’r unigolyn hwnnw.

8.5 Os yw’r unigolyn yn blentyn ac o oedran a dealltwriaeth ddigonol, rhaid rhoi’r hysbysiad i’r plentyn hwnnw, oni fydd amgylchiadau penodol y cais yn golygu y byddai’n amhriodol gwneud hynny - er enghraifft, oherwydd y byddai o bosibl yn niweidiol i les y plentyn. Ac eithrio pan ymddengys ei bod yn amhriodol i’r awdurdod lleol wneud hynny, rhaid rhoi’r hysbysiad hefyd i warcheidwad arbennig neu ddarpar warcheidwad arbennig y plentyn. Os nad oes gan y plentyn warcheidwad arbennig neu ddarpar warcheidwad arbennig, mae’n rhaid rhoi’r hysbysiad i’r oedolyn mwyaf priodol yn nhyb yr awdurdod lleol.

8.6 Wrth roi gwybodaeth neu hysbysiadau i blentyn, mae’n rhaid i awdurdod lleol sicrhau y rhoddir yr wybodaeth mewn modd sy’n briodol i oedran a dealltwriaeth y plentyn. Mewn rhai amgylchiadau, mae’n bosibl y bydd angen rhoi’r wybodaeth ar lafar yn ogystal ag yn ysgrifenedig, er mwyn sicrhau bod y plentyn yn llwyr ddeall y penderfyniadau y mae’r awdurdod lleol wedi eu gwneud neu yn bwriadu eu gwneud. Rhaid i’w awdurdod lleol sicrhau y caiff y plentyn a’r gwarcheidwad arbennig eu cyfeirio at ffynonellau o gymorth a chyfryngu annibynnol, fel bo’n briodol.

8.7 Os nad yw’n briodol rhoi hysbysiad i blentyn, neu os nad yw’r plentyn yn ddigon hen neu’n deall digon, mae’n rhaid i’r awdurdod lleol roi’r hysbysiad i

warcheidwad arbennig neu ddarpar warcheidwad arbennig y plentyn, neu os nad oes un, i'r oedolyn mwyaf priodol.

# 9 Y cynllun gwasanaethau cymorth

9.1 Ar ôl i'r unigolyn gael ei asesu am ei anghenion am wasanaethau cymorth gwarcheidiaeth arbennig, ac i'r awdurdod lleol roi gwybod i'r unigolyn hwnnw am eu penderfyniad ynghylch darparu'r gwasanaethau hynny, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol baratoi cynllun o'r gwasanaethau cymorth gwarcheidiaeth arbennig. Caiff hyn ei adnabod fel y cynllun gwasanaethau cymorth. Mae'r bennod hon yn egluro sut mae'n rhaid paratoi cynlluniau, beth mae'n rhaid iddyn nhw ei gynnwys, a pha mor aml y mae'n rhaid eu hadolygu.

Pryd ddylid paratoi cynllun?

9.2 Mae'n hanfodol paratoi cynllun gwasanaethau cymorth i sicrhau y caiff gwasanaethau eu darparu mewn modd cydlynol, ac er mwyn egluro pwy fydd yn gyfrifol am beth.

9.3 Dylai'r cynllun gwasanaethau cymorth ychwanegu at unrhyw wybodaeth sydd eisoes yn hysbys i'r awdurdod lleol. Os oes gan y plentyn gynllun gofal a chymorth yn unol â Rhan 4 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (neu fod cynllun cymorth gan y gwarcheidwad arbennig), dylid ymgorffori cynllun gwasanaethau cymorth gwarcheidiaeth arbennig y plentyn a / neu'r oedolyn i gynllun Rhan 4 yr unigolyn hwnnw.

9.4 Nid oes angen i'r awdurdod lleol baratoi cynllun gwasanaethau cymorth os caiff gwasanaethau cymorth gwarcheidiaeth arbennig eu darparu ar gyfer achlysur unigol. Mewn achos o'r fath bydd yr hysbysiad a ddarperir yn cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol.

9.5 Hyd yn oed os nad oes angen cynllun cymorth, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod y plentyn a'r gwarcheidwad arbennig yn gwybod pwy yw cyswllt gwarcheidiaeth arbennig yr awdurdod lleol, a sut i ddod o hyd i wybodaeth a chymorth os oes angen.

9.6 Os oes modd, mae'n rhaid cytuno ar gynlluniau cymorth gyda'r darpar warcheidwad arbennig cyn gwneud y gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig. Mae'n bosibl y bydd angen cyngor a chymorth annibynnol ar y plentyn a'r darpar warcheidwad arbennig cyn iddyn nhw allu gwneud penderfyniad cytbwys am y cymorth arfaethedig. Lle bo'n briodol dylai'r awdurdod lleol ystyried trefnu cyfarfodydd teuluol i drafod trefniadau cymorth.

Pwy sydd angen ei gynnwys?

9.7 Os yw'r awdurdod lleol yn ei ystyried yn briodol, mae'n rhaid iddo ymgynghori â'r bobl ganlynol wrth baratoi'r cynllun gwasanaethau cymorth:

- yr unigolyn yr aseswyd ei anghenion am wasanaethau cymorth gwarcheidiaeth arbennig (boed yn oedolyn neu'n blentyn o oedran a dealltwriaeth ddigonol)
- yn achos plentyn, y gwarcheidwad arbennig neu'r darpar warcheidwad arbennig (oni bai yr ymddengys yn amhriodol gwneud hynny).

9.8 Mae'n rhaid i awdurdodau lleol sicrhau yr ymgynghorir yn briodol â phlentyn neu berson ifanc, ac os yw'n briodol, y caiff y plentyn neu'r person ifanc ei gefnogi gan unigolyn priodol yn ystod yr ymgynghoriad. Mae gan blentyn sy'n derbyn gofal pan wneir cais am orchymyn gwarcheidiaeth arbennig yr hawl statudol i gael eiriolaeth dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

9.9 Pan fydd y cynllun gwasanaethau cymorth yn cael ei baratoi, hwyrach y daw'n amlwg bod angen i rai gwasanaethau gael eu darparu gan fwrdd iechyd lleol, ymddiriedolaeth GIG, grŵp comisiynu clinigol, Bwrdd Comisiynu'r GIG neu awdurdod lleol arall. Os yw'r awdurdod lleol o'r farn bod hynny'n wir, mae rheoliad 11(3) yn ei gwneud yn ofynnol iddo ymgynghori â'r Bwrdd, Ymddiriedolaeth, grŵp neu awdurdod perthnasol.

9.10 Dylai'r broses hon o baratoi ac ymgynghori arwain at sefyllfa lle bydd gweithwyr cymdeithasol, gweithwyr proffesiynol eraill a'r sawl sy'n derbyn y gwasanaethau (neu'r oedolyn priodol) yn glir beth yw'r cynllun gwasanaethau cymorth. Rhaid i'r cynllun fod wedi ei ysgrifennu mewn modd sy'n ddealladwy i bawb y mae'n effeithio arnynt.

<u>Beth sy'n rhaid i'r cynllun ei gynnwys?</u>

9.11 Mae'n rhaid i'r cynllun nodi'n eglur:

- amcanion y cynllun
- y gwasanaethau allweddol i'w darparu
- yr amserlenni ar gyfer cyflawni'r cynllun
- yr unigolyn a fydd yn gyfrifol am gydlynu a monitro sut y caiff gwasanaethau'r cynllun eu darparu
- swyddogaethau'r bobl eraill sy'n gyfrifol am weithredu'r cynllun
- y meini prawf a gaiff eu defnyddio i werthuso llwyddiant y cynllun
- y trefniadau o ran adolygu'r cynllun

9.12 Os yw'r asesiad am gymorth wedi esgor ar unrhyw bryderon neu nodi unrhyw

beryglon, mae’n rhaid i’r cynllun gwasanaethau cymorth egluro’n llawn sut yr eir i’r afael â’r rhain neu sut y cânt eu rheoli.

9.13 Rhaid i’r cynllun hwn roi darlun clir i bawb sy’n ymwneud â darparu’r gwasanaethau, ac i’r unigolyn sy’n derbyn y gwasanaethau hynny, o’r hyn a ddarperir, pryd a chan bwy, a sut y caiff llwyddiant y gwasanaethau ei fesur a’i adolygu. Rhaid i’r awdurdod lleol hefyd roi gwybod i’r unigolyn sy’n derbyn y gwasanaethau pwy fydd eu cyswllt cyntaf pe bai gan yr unigolyn unrhyw gwestiynau neu bryderon ynghylch y cynllun.

I bwy y dylid rhoi copi o’r cynllun?

9.14Ar ôl cytuno ar y cynllun mae’n rhaid i’r awdurdod lleol anfon copi at y sawl sy’n derbyn y gwasanaethau cymorth gwarcheidiaeth arbennig (a / neu'r gwarcheidwad arbennig neu oedolyn priodol) yn unol â Rheoliad 10 (gweler pennod 7 y cod hwn).

9.15 Os yw’r awdurdod lleol o’r farn y gall fod bwrdd iechyd lleol, Ymddiriedolaeth GIG, grŵp comisiynu clinigol neu Fwrdd Comisiynu’r GIG yn rhan o ddarparu’r cynllun, yna mae’n rhaid i’r awdurdod ddarparu copi o’r cynllun i’r bwrdd, Ymddiriedolaeth neu grŵp hwnnw. Os yw’r unigolyn y mae’r cynllun yn ymwneud ag ef yn byw yn ardal awdurdod lleol arall, mae’n rhaid i’r awdurdod lleol a luniodd y cynllun ddarparu copi o’r cynllun i awdurdod lleol yr ardal, oni bai bod yr awdurdod lleol yn ystyried hynny’n ddiangen.

## 10 Adolygu gwasanaethau cymorth

10.1 Mae'r bennod hon yn egluro'r gofynion ar awdurdodau lleol i adolygu cynlluniau gwasanaethau cymorth gwarchodaeth arbennig, gan gynnwys trefniadau i adolygu cymorth ariannol os yw'r amgylchiadau wedi newid.

Cadw mewn cysylltiad

10.2 Mae'n rhaid i awdurdodau gael trefniadau ar waith i gadw mewn cysylltiad â gwarcheidwaid arbennig (a) os gwnaed y gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig yn ardal yr awdurdod hwnnw, a (b) os yw'r gwarcheidwad arbennig yn byw mewn ardal arall ond mae'r plentyn wedi derbyn gofal gan yr awdurdod hwnnw. Pan fo gan y gwarcheidwad arbennig a'r plentyn berthynas sefydlog a chadarn, a bod y trefniant gwarcheidiaeth arbennig yn gweithio'n dda, mae'n bosibl na fydd angen dim mwy na galwad ffôn unwaith y flwyddyn i sicrhau bod popeth yn dda, ac nad oes angen unrhyw wybodaeth, cyngor na chymorth pellach. Fel isafswm, dylai awdurdodau lleol gysylltu â gwarcheidwaid arbennig o leiaf unwaith y flwyddyn.

10.3 Mae'n rhaid i awdurdodau lleol sicrhau hefyd eu bod yn cysylltu â gwarcheidwaid arbennig ynglŷn â newidiadau sy'n effeithio ar drefniadau cymorth gwarcheidiaeth arbennig yn lleol (er enghraifft, newid manylion cyswllt), fel bod pob gwarcheidwad arbennig yn gwybod lle i fynd i gael cyngor a chefnogaeth pe bai'r angen yn codi. Mae'n bosibl y bydd cylchlythyrau neu fwletinau e-bost yn ddefnyddiol yn hyn o beth, neu fe ellid cynnwys gwybodaeth yn yr asesiad ariannol blynyddol.

Adolygu cynlluniau gwasanaethau cymorth

10.4 Mae adolygu darpariaeth gwasanaethau cymorth gwarcheidiaeth arbennig yn amlwg yn broses bwysig iawn i'r awdurdod lleol, y gwarcheidwad arbennig a'r plentyn. Mae angen i'r awdurdod lleol fod yn sicr bod y gwasanaethau a gaiff eu darparu'n rheolaidd yn effeithiol. Mae angen y sicrwydd ar y plentyn a'r gwarcheidwad arbennig y bydd proses ar waith os yw eu hanghenion yn newid ac y bydd hynny'n fodd o adolygu a chydnabod yr anghenion hynny a darparu'r gwasanaethau priodol.

10.5 Bydd arddull a chynnwys yr adolygiad yn amrywio yn dibynnu ar amgylchiadau'r achos. Os yw newid mewn amgylchiadau yn berthnasol i un gwasanaeth yn unig, gellir cynnal yr adolygiad mewn cysylltiad â'r gwasanaeth hwnnw yn unig. Os yw'r newid yn yr amgylchiadau yn weddol ddibwys, yna mae'n bosibl y caiff yr adolygiad ei gyfyngu i ohebiaeth. Fodd bynnag, os yw'r amgylchiadau'n newid

yn sylweddol, megis newid difrifol yn ymddygiad y plentyn, efallai y bydd yn briodol cynnal asesiad anghenion newydd ar gyfer gwasanaethau cymorth gwarcheidiaeth arbennig. Weithiau gall fod yn briodol cynnal asesiad o anghenion gofal a chymorth o dan Adran 3 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

10.6 Nid yw'n angenrheidiol cael unrhyw gyswllt uniongyrchol rhwng yr awdurdod lleol a'r gwarcheidwad arbennig wrth roi gwybod am newidiadau mewn amgylchiadau ac wrth gynnal unrhyw adolygiad o ddarpariaeth gwasanaethau cymorth gwarcheidiaeth arbennig. Yn benodol, bydd yr adolygiad blynyddol o gymorth ariannol yn seiliedig yn gyffredinol ar ohebiaeth rhwng yr awdurdod lleol a'r gwarcheidwad arbennig.

10.7 Gall ymweliadau â chartref y gwarcheidwad arbennig, drwy gytundeb rhwng y gwarcheidwad arbennig a'r awdurdod lleol, fod o fudd mewn rhai amgylchiadau, er enghraifft, lle caiff pecyn cymhleth o wasanaethau cymorth gwarcheidiaeth arbennig ei ddarparu. Mae'n bosibl y bydd rhai gwarcheidwaid arbennig yn croesawu'r cyfle i gysylltu â'r awdurdod lleol. Hwyrach yr hoffai awdurdodau lleol roi dewis i warcheidwaid arbennig gael ymweliad â'u cartref fel bod cyfle gan y gwarcheidwad arbennig a'r awdurdod lleol i drafod a gwerthuso profiadau diweddar. Gall hyn fod o gymorth cyn cwblhau'r datganiad blynyddol os telir cymorth ariannol.

10.8 Wrth gynnal adolygiad, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol ystyried yr un agweddau ag a wnaed ar gyfer yr asesiad gwreiddiol (gweler pennod 3 y cod hwn).

<u>Amserlenni ar gyfer adolygu</u>

10.9Wrth baratoi'r cynllun gwasanaethau cymorth, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol drafod y trefniadau ynghylch adolygu darpariaeth gwasanaethau cymorth gyda'r sawl fydd yn eu derbyn (a / neu'r gwarcheidwad arbennig neu'r oedolyn priodol), os yw o'r farn bod hyn yn briodol. Mae'n rhaid ymgorffori'r trefniadau adolygu i'r cynllun.

10.10 Ni ddylai'r broses adolygu fod yn rhy feichus neu fusneslyd, a dylai adlewyrchu a gaiff y gwasanaethau eu darparu dros gyfnod byr neu barhaol. Os mai diben y gwasanaethau yw diwallu angen sy'n debygol o barhau nes fo'r plentyn yn 18 oed, hwyrach mai dim ond yn achlysurol y bydd angen adolygu sut caiff y gwasanaethau hynny eu darparu. Os mai dim ond am ychydig wythnosau y mae'r gwasanaethau i bara, gall fod yn briodol adolygu darpariaeth y gwasanaethau hynny ar ddiwedd y cyfnod.

10.11 Lle bynnag y bo’n bosibl rhaid cynnal adolygiad o fewn pedair wythnos i’r adeg y daw’n amlwg i’r awdurdod lleol bod amgylchiadau wedi newid.

Adolygu cymorth ariannol

10.12 Os caiff cymorth ariannol rheolaidd ei ddarparu, mae’n rhaid i awdurdod lleol adolygu’r cymorth ariannol a ddarperir os daw i’w sylw fod newid perthnasol wedi bod yn amgylchiadau’r unigolyn sy’n cael cymorth. **Mae’n rhaid i awdurdodau lleol adolygu’r cymorth ariannol a ddarperir o leiaf unwaith y flwyddyn.**

10.13 Dylai awdurdodau lleol fod yn hyblyg wrth ymateb i newidiadau mewn amgylchiadau ac yn yr adolygiad blynyddol o gymorth ariannol. Mae modd cynyddu neu leihau cymorth ariannol fel bo’n briodol mewn achos unigol. Os yw cyflwr y plentyn yn dirywio ac yn arwain at wariant ychwanegol o du’r gwarcheidwad, efallai y bydd angen cymorth ariannol ychwanegol. I’r gwrthwyneb, gall newid mewn amgylchiadau arwain at lai o gymorth ariannol.

10.14 Bydd angen i’r awdurdod lleol fod yn sensitif wrth bennu i ba raddau y mae newidiadau mewn amgylchiadau neu anghenion ariannol yn effeithio ar ddarparu cymorth ariannol. Er enghraifft, gall fod yn amhriodol tynnu’r cynnydd mewn enillion costau byw oddi ar y cymorth ariannol a ddarperir, er y byddai modd ystyried unrhyw gynnydd sylweddol.

10.15 Mae’n rhaid i warcheidwaid arbennig gwblhau datganiad blynyddol o’u hamgylchiadau a’i anfon at yr awdurdod lleol. Os nad yw’r gwarcheidwad arbennig yn gwneud hynny, ni chaiff yr awdurdod lleol gymryd unrhyw gamau i adolygu, dod â thaliadau i ben neu adhawlio unrhyw gymorth ariannol nes iddo anfon nodyn atgoffa ysgrifenedig a chaniatáu 28 diwrnod i’r gwarcheidwad arbennig ddarparu’r datganiad. Os na ddarperir y datganiad ymhen 28 diwrnod, mae modd i’r awdurdod lleol adolygu’r cymorth ariannol neu roi terfyn ar y taliadau. Gall awdurdodau lleol hefyd geisio adennill cyfran neu’r cwbl o’r cymorth ariannol a dalwyd ganddynt. Rhaid i awdurdodau lleol sicrhau y rhoddir gwybod i warcheidwaid arbennig am y darpariaethau hyn drwy eu cynnwys yn yr hysbysiad ffurfiol ynghylch cymorth ariannol, a’u hatgoffa bob blwyddyn i ddarparu’r wybodaeth angenrheidiol cyn pob adolygiad blynyddol. Os yw’r awdurdod lleol yn atal taliadau, gall ailgyflwyno taliadau pan ac os yw’n cael y datganiad blynyddol.

10.16 Dylai’r awdurdod lleol fod yn barod i roi cyngor a chefnogaeth ynghylch cwblhau’r ffurflenni, ar gais, pan fo angen hynny

10.17 Rhaid i’r awdurdod lleol ddod â chymorth ariannol i ben o’r dyddiad y daw’n ymwybodol o unrhyw un o’r amgylchiadau canlynol:

- nad yw’r gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig bellach yn weithredol neu fod y llys wedi ei ddiddymu.
- nad yw’r plentyn bellach yn byw gyda’r gwarcheidwad arbennig neu ddarpar warcheidwad arbennig (oni bai am gyfnodau byr lle nad yw yng nghartref y gwarcheidwad arbennig neu ddarpar warcheidwad arbennig, er enghraifft, mewn cysylltiad â’i addysg, gwyliau byrion neu oherwydd ei fod yn yr ysbyty)
- bod y plentyn yn derbyn cymhorthdal incwm neu lwfans ceisio gwaith
- bod y plentyn wedi cael swydd gyflogedig lawn amser
- bod y plentyn yn marw.

<u>Yr hyn sydd angen ei wneud ar ôl yr adolygiad</u>

10.18 Ar ôl cynnal yr adolygiad mae’n rhaid i’r awdurdod lleol benderfynu a ddylid addasu neu derfynu’r gwasanaethau cymorth gwarcheidaeth arbennig ar gyfer yr unigolyn hwnnw. Wrth wneud y penderfyniad hwn mae’n rhaid i’r awdurdodau lleol weithredu’n rhesymol.

10.19 Os yw’r awdurdod lleol yn penderfynu amrywio neu derfynu’r gwasanaethau cymorth a ddarperir, neu adolygu’r cynllun gwasanaethau cymorth, mae’n rhaid i’r awdurdod lleol roi gwybod am eu penderfyniad yn unol â Rheoliad 10 (hysbysiadau– gweler pennod 7 y cod hwn). Rhaid i’r hysbysiad hwn gynnwys y rhesymau dros wneud y penderfyniad.

10.20 Os penderfynir, yn dilyn yr adolygiad, y dylid newid y gwasanaethau a ddarperir, mae’n rhaid adolygu’r cynllun gwasanaethau cymorth hefyd. Os na fu newid yn yr angen am wasanaethau nid oes angen adolygu’r cynllun.

## 11 Plant a arferai dderbyn gofal: gwasanaethau y tu allan i'r ardal.

11.1 Mae'r bennod hon yn egluro pa awdurdod lleol sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau cymorth gwarcheidiaeth arbennig i blentyn a oedd yn derbyn gofal yn union cyn gwneud y gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig.

11.2 Mae'r Rheoliadau yn nodi y dylai'r awdurdod lleol a oedd yn gofalu am blentyn yn union cyn y gwnaed y gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig barhau i ddiwallu unrhyw anghenion cymorth a nodwyd ar gyfer gwasanaeth cymorth gwarcheidiaeth arbennig am gyfnod o dair blynedd ar ôl gwneud y gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig, waeth ble mae'r plentyn yn byw. Mae hyn yn golygu bod gwasanaethau cymorth gwarcheidiaeth arbennig bellach yn dilyn yr un egwyddorion â'r trefniadau ar gyfer cymorth mabwysiadu.

11.3 Rhaid i'r awdurdod lleol a oedd yn darparu gofal i'r plentyn roi gwybod i'r awdurdod lleol ymhle y bydd y plentyn a'r gwarcheidwad arbennig yn byw cyn gynted ag y gwneir y gorchymyn gwarchodaeth arbennig. Bydd hyn yn helpu gyda threfniadau pontio unwaith y daw'r cyfnod tair blynedd i ben, a bydd yn arbennig o bwysig pan fo anghenion gofal a chymorth ychwanegol.

11.4 Os oes gan blentyn anghenion gofal a chymorth y tu hwnt i'r gwasanaethau cymorth gwarcheidiaeth arbennig penodedig, caiff y rhain eu nodi yng nghynllun cymorth a gofal y plentyn yn unol â Rhan 4 o Ddeddf 2014. Yn yr amgylchiadau hyn, bydd angen i'r awdurdod lleol a oedd yn darparu gofal i'r plentyn a'r awdurdod lleol y bydd y plentyn yn byw ynddo gytuno ar yr awdurdod a fydd yn gyfrifol am ddiwallu'r anghenion ychwanegol hyn. Yn y rhan fwyaf o achosion, disgwylir i'r awdurdod lleol oedd yn arfer gofalu am y plentyn ddiwallu unrhyw anghenion cymorth rheolaidd (gan gynnwys y rheini y tu hwnt i'r gwasanaethau cymorth gwarcheidiaeth arbennig penodedig) am dair blynedd ar ôl gwneud y gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig. Os bydd unrhyw anghenion ychwanegol yn codi yn ystod y cyfnod tair blynedd, bydd angen i'r ddau awdurdod lleol bennu pa awdurdod lleol fydd yn diwallu'r anghenion gofal hynny.

11.5 Ar ddiwedd y cyfnod tair blynedd, caiff y cyfrifoldeb am ddiwallu'r angen am wasanaethau cymorth gwarcheidiaeth arbennig ei drosglwyddo i'r awdurdod lleol y mae'r plentyn yn byw ynddo. Wrth i'r cyfnod tair blynedd dynnu at ei derfyn, rhaid i'r awdurdod lleol sy'n darparu'r cymorth hysbysu'r awdurdod lleol mae'r plentyn yn byw ynddo am unrhyw anghenion sy'n dal i fodoli. Rhaid gwneud yr hysbysiad hwn yn ddigon buan i'r awdurdod lleol drafod yr anghenion cymorth hynny gyda'r teulu, cynnal ailasesiad os oes angen, a threfnu i barhau i ddarparu gwasanaethau cymorth. Mae'r ddau awdurdod lleol yn gyfrifol am

sicrhau nad oes unrhyw fwlch yn y ddarpariaeth, ac y bydd y cyfnod pontio i unrhyw fodel darpariaeth gwasanaeth newydd yn cael ei reoli'n esmwyth ac er budd gorau'r plentyn a'i deulu.

11.6 Ar y cam hwn mae'n rhaid i'r awdurdod lleol sydd wedi bod yn darparu gwasanaethau roi manylion i'r plentyn am y gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth sydd yn eu hardal nhw, a rhoi gwybod iddyn nhw am eu hawl i ofyn am ailasesiad o'u hanghenion cymorth gwarcheidiaeth arbennig os yw eu hamgylchiadau'n newid.

11.7Pan gaiff hysbysiad bod y cyfnod tair blynedd yn dirwyn i ben, rhaid i'r awdurdod lleol y mae'r plentyn a'r gwarcheidwad arbennig fel arfer yn byw ynddo gysylltu â'r plentyn a'r gwarcheidwad arbennig i drafod eu hanghenion am wasanaethau cymorth a sut y caiff y rhain eu diwallu yn y dyfodol. Gall yr awdurdod lleol benderfynu, ar ôl y drafodaeth hon, ailasesu anghenion y plentyn neu'r gwarcheidwad arbennig o ran gwasanaethau cymorth, neu gall benderfynu hyd yn oed fod angen asesiad llawnach am ofal a chymorth yn unol â Rhan 3 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).

## 12 Gorchmynion gwarcheidiaeth arbennig a gadael gofal

12.1 Mae'n bosibl y bydd plant a oedd yn derbyn gofal gan awdurdod lleol yn union cyn gwneud gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig yn gymwys i gael cyngor, arweiniad a chefnogaeth yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae adran 104 o Ddeddf 2014 yn diffinio chwe chategori o bobl ifanc mewn cysylltiad â gadael gofal, a chaiff 'person ifanc categori 5' ei ddisgrifio fel unigolyn ifanc rhwng 16 a 21 sy'n destun gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig (neu a oedd yn destun y gorchymyn pan oedd yn 18 oed) ac a oedd yn derbyn gofal yn union cyn gwneud y gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig.

12.2 Mae adran 114 o Ddeddf 2014 yn disgrifio'n fanwl holl ddyletswyddau awdurdod lleol tuag at 'berson ifanc categori 5'. Mae manylion pellach i'w gweld yn y Cod Ymarfer sy'n gysylltiedig â rhan 6 o'r Ddeddf (Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant sy'n Cael eu Lletya), pennod 5 ('Gadael Gofal').

12.3 Rhaid i'r awdurdod lleol ystyried a oes angen y math o gymorth a ddisgrifir yn adran 114 ar y person ifanc. Os yw'r awdurdod lleol yn fodlon nad oes gan yr unigolyn oedd yn gofalu am y person ifanc (y gwarcheidwad arbennig neu'r cyn-warcheidwad arbennig) y cyfleusterau angenrheidiol i gynghori a bod yn gefn i'r plentyn, yna mae'n rhaid i'r awdurdod lleol gynghori a bod yn gefn i'r plentyn, a'i gefnogi fel bo angen yn y ffyrdd canlynol:

- ar ffurf da
- drwy gyfrannu at dreuliau a dynnir gan y person ifanc wrth iddo fyw yn agos i'r man lle y mae, neu y bydd, yn cael ei gyflogi neu yn chwilio am waith cyflogedig
- drwy gyfrannu at dreuliau a dynnir gan y person ifanc wrth iddo fyw yn agos i'r man lle y mae, neu y bydd, yn derbyn addysg neu hyfforddiant
- drwy roi grant i'r person ifanc i'w alluogi i dalu treuliau sy'n gysylltiedig â'i addysg neu ei hyfforddiant
- drwy ddarparu llety, os na chaniateir i gymorth gael ei roi yn y ffyrdd uchod
- mewn arian parod

12.4 Gall yr awdurdod lleol hefyd roi cymorth mewn amgylchiadau arbennig hyd at 25 oed, os yw'r person ifanc yn cwblhau addysg neu hyfforddiant fel yr eglurir yn y cynllun y cytunwyd arno gyda'r person ifanc.

12.5 Mae'r darpariaethau hyn yn cydnabod y bydd rhai pobl ifanc a adawodd ofal dan orchymyn gwarcheidiaeth arbennig o bosibl yr un mor fregus, ac yn meddu ar anghenion tebyg i bobl ifanc a adawodd ofal pan oeddent yn 16 neu'n 18 oed.

Mae hyn yn hynod o bwysig oherwydd daw’r gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig i ben pan fydd y person ifanc yn cyrraedd 18 oed. Maen nhw’n rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i ymateb yn ddigonol i anghenion unigol y bobl ifanc hyn.

12.6 Os yw awdurdod lleol yn fodlon fod angen cyngor a chymorth ar ‘berson ifanc categori 5’ rhaid iddo asesu ei anghenion a phenderfynu sut orau i’w diwallu. Os daw’r awdurdod lleol i’r casgliad y bydd angen cymorth dros gyfnod o amser ar y person ifanc, dylai lunio cynllun ar y cyd â’r person ifanc, yn amlinellu’r gofal a’r cymorth i’w darparu. Dylai’r cynllun ddilyn yr un arddull â ‘chynllun llwybr’ ar gyfer person ifanc sy’n paratoi i adael gofal (fel yr eglurir ym mhennod 5 o God Ymddygiad Rhan 6).

12.7 Rhaid i’r awdurdod lleol hysbysu pobl ifanc sydd wedi gadael gofal dan orchymyn gwarcheidiaeth arbennig o’u hawl i gael asesiad oherwydd eu bod yn gadael gofal. Mae’n ymarfer da gwneud hyn pan mae’r plentyn ar fin cyrraedd 16 oed.

12.8 Mae Rheoliad 13 yn darparu mai’r awdurdod lleol olaf i ofalu am y plentyn yw’r un a ddylai ddarparu cyngor a chefnogaeth.

12.9 Gall fod adegau pan nad yw hi’n glir pa awdurdod sy’n gyfrifol am roi cyngor a chefnogaeth mewn cysylltiad â gwarcheidiaeth arbennig – efallai fod y plentyn wedi symud o gwmpas y wlad o un cartref maeth i’r llall. Mae Rheoliad 13 yn datgan mai’r awdurdod perthnasol fydd yr awdurdod olaf i ofalu am y plentyn.

## 13 Cwynion a sylwadau

Mae'n rhaid ymdrin â chwynion a sylwadau ynglŷn â gwasanaethau cymorth gwarcheidiaeth arbennig yn unol â threfniadau cwyno'r awdurdod lleol.

13.1 Mae Rheoliad 14 yn nodi bod modd gwneud cwyn neu gyflwyno sylwadau yn arbennig mewn cysylltiad â'r gwasanaethau canlynol:

- cymorth ariannol i warcheidwaid arbennig
- grwpiau cymorth i blant
- cymorth mewn cysylltiad â chyswllt
- gwasanaethau therapiwtig i blant
- help i sicrhau parhad y berthynas rhwng y plentyn a'u gwarcheidwad arbennig neu ddarpar warcheidwad arbennig

13.2 Rhaid i awdurdodau lleol sicrhau bod plant sy'n destun trefniadau gwarcheidiaeth arbennig, gwarcheidwaid arbennig a darpar warcheidwaid arbennig, a rhieni, yn cael gwybodaeth am sut i gwyno a chyflwyno sylwadau.